



DARGANFOD HEN DAI CYMREIG DISCOVERING OLD WELSH HOUSES



Dathlu Treftadaeth Cymru drwy astudio tai traddodiadol a bywydau'r bobl fu'n byw ynddynt.

Celebrating Welsh Heritage through the study of traditional houses and the lives of the people who lived in them.

CYLCHLYTHYR 25 Mehefin 2018

NEWSLETTER 25 June 2018

EIN GWEFAN <http://discoveringoldwelshhouses.co.uk> yw prif sianel gyfathrebu'r Grŵp – defnyddiwch hi i weld mwy o fanylion am y digwyddiadau diweddar a'r rhai sydd ar ddod, ac i edrych ar ein llyfrgell sy'n cynyddu'n gyson ac ar nodweddion eraill.

GAIR O'R GADAIR: O'r diwedd dychwelodd yr haul a'i wres derbyniol. Trafodwyd ymweliad y Grŵp Pensaerniaeth Frodorol i Ogledd Cymru yn gampus gan Martin, Margaret a Peter Thompson. Trefnwyd a chynlluniwyd yr achlysur yn well os rhywbeth nag unrhyw weithgaredd Militaraidd a'i wneud yn ddigwyddiad mwyaf pleserus. Hoffwn anfon ein diolch arbennig i bawb a gynorthwyodd, yn aelodau ac yn berchentywyr. Hefyd fe werthfawrogwyd yn fawr eu hymdrechion gan y cynrychiolwyr a llawer ohonynt yn wir arbenigwyr yn y maes hwn. Gwnaeth y digwyddiad hwn lawer i godi proffil ein Grŵp brwdfrydig ac amrywiaeth ac ansawdd tai cynnar ledled gogledd Cymru.

Y Cylchlythyr hwn fydd yr olaf o'r nifer a gynhyrwyd gan Tom David. Mae ein dyled iddo yn enfawr yn enwedig am ei broffesiônoldeb, ei amynedd (yn arbennig tuag ataf fi!) ond yn fwyaf arbennig am ansawdd llwyr ei holl waith. Mae'r Cylchlythyrau a gesglir gennym yn deyrnged wych i'w waith cyson yn ogystal ag yn gofnod amhrisiadwy o'r hyn a gyflawnwyd gan y Grŵp. Mae Irene wedi cynnig yn wrol barhau y gwaith da hwn ac rydym i gyd yn anfon ein diolch a'n hanogaeth iddi, a dymuniadau gorau i chi i gyd.

Richard Cuthbertson, Cadeirydd



Cynrychiolwyr VAG yn ymweld â Chaerfallen / VAG delegates visit Caerfallen

NEWYDDION DIWEDDARAF

Cofiwch am CBC GDHDC (2 yp) a Darlith Gyhoeddus (3yp) ar Ddydd Gwener 22 Mehefin yng Nghanolfan Gymunedol Craig y Don, Llandudno. Siaradwraig: Eleanor Carpenter ar "Dirgelwch y Marciau ar Adeiladau."

OUR WEBSITE <http://discoveringoldwelshhouses.co.uk> is the Group's main channel of communication – please visit it to see details of recent and forthcoming events and to look at our growing library and other features.

FROM THE CHAIR: At last sunshine and warmth have returned. The important week of the Vernacular Architecture Group visit to North Wales was handled superbly by Martin, Margaret and Peter Thompson who planned it rather better than most Military operations and made it a most enjoyable event. I would like to send our special thanks to all who helped, members and householders. Their efforts were also much appreciated by the delegates many of whom were real experts in this field, and the whole trip has done much to raise the profile of our enthusiastic Group and the range and quality of early houses across north Wales.

This Newsletter will be the last of many produced by Tom David. We owe him an immense debt of gratitude for his professionalism, his patience (especially with me!), but most of all for the sheer quality of what he has done. Our 'collected' Newsletters stand as a magnificent tribute to his hard work as well as an invaluable record of what the Group has achieved. Irene has bravely offered to carry the good work forward and we send our thanks and encouragement to her, and best wishes to you all,

Richard Cuthbertson, Chairman



Arddangosfa Prestatyn / Prestatyn Exhibition

NEWS UPDATE

Remember the DOWH AGM (2 pm) & Public lecture (3 pm) on Friday 22nd June in the Craig y Don Community Centre, Llandudno. Speaker: Eleanor Carpenter on "The Mystery of Markings on Buildings."

Fe gynhelir **digwyddiad i godi arian** ym Mhlas Penmynydd, Llangefni, Ynys Môn ar **Sadwrn 6 Hydref 2018** o hanner dydd tan 4 yp. Tâl mynediad £10 y pen (am ddim i rai dan 15 oed) – tocynnau wrth y giât. ANERCHIAD gan Richard Cuthbertson ar Blas Penmynydd a'i gysylltiadau â'r Tuduriaid. Teithiau ymweld â'r tŷ; ymweliadau â gerddi; lluniaeth ysgafn. Manylion i ddod eto.

Taith Astudio i CUMBRIA 10-13 Medi 2018: gellwch fod mewn pryd i archebu. Cysylltwch â Wally Barr: wallybarr@yahoo.co.uk / 01745 888622.

Rheoliadau newydd Gwarchod Data Cyffredinol: O fewn amser byr daw'r rhain i rym a bydd yr holl aelodau yn ogystal â chysylltiadau eraill yn fuan yn derbyn gwybodaeth bellach. Os na wnewch ymateb bydd yn rhaid i ni yn ôl y gyfraith ddileu eich manylion ac ni fyddwch mwyach yn derbyn unrhyw wybodaeth oddi wrthym ni. Felly gobeithiwn glywed oddi wrth bob un ohonoch.

Grantiau 2018-19: Dyma ein trydedd flwyddyn a'n blwyddyn olaf yn canolbwyntio ar ODdn Cymru. Cawsom £4,000 gan Gronfa Marc Fitch ac rydym yn hynod ddiolchgar am hyn. Gobeithiwn glywed yn fuan am ganlyniad ein cais am grant i AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Rydym yn dal i ddefnyddio Cronfa Woodtiger a chronfa "Bagiau o Gymorth" Tesco ar y gweithgareddau perthnasol.

Gweithgareddau Canghennau yn dal i ffynnu wrth i grwpiau bychain o aelodau ddilyn eu diddordebau yn ymchwilio i hanes tai, cofnodi adeiladau a marciau anarferol mewn tai a.y.b. ar draws gogledd Cymru. Mae aelodau Meirionnydd wedi bod yn paratoi ar gyfer arddangosfa Fai yn Aberdyfi drwy ymchwilio yng Nghwm Maethlon; mae aelodau GDdn Cymru wedi bod yn dilyn hanesion tai y tai hynny a gofnodwyd yn bensaernïol neu a ddendro-ddyddiwyd ym mlwyddyn gyllidol olaf y prosiect. Mae prosiect hanes lleol Sir Gaernarfon / Tesco yn mynd o nerth i nerth.



Coedydd Tŷ Hyll ym Mai / Tŷ Hyll woods in May

OS YDYCH Â DIDDORDEB MEWN HEN DAI ond ddim eto yn aelod, pam na ystyriwch ymuno â'r Grŵp? Ysgrifennydd Aelodaeth yw Ms Zoë Henderson 01824 704404 membership@discoveringgoldwelshhouses.co.uk. Am wybodaeth bellach cysylltwch â Margaret Dunn, yr Ysgrifennyddes secretary@discoveringgoldwelshhouses.co.uk 01766 890550.

A **Fundraising Event** will be held at Plas Penmynydd, Llangefni, Anglesey on **Saturday 6th October 2018** from noon-4 pm. Entry £10 per head (under 15s free) – tickets at the gate. TALK by Richard Cuthbertson on Plas Penmynydd and its links with the Tudors. House tours; visit the gardens; displays; light refreshments. Details to follow.

Study Tour to CUMBRIA 10-13 September 2018: You may still be in time to book. Contact Wally Barr: wallybarr@yahoo.co.uk / 01745 888622.

New General Data Protection Regulations: These come in to operation very shortly and all members and other contacts will soon be receiving further information. If we do not hear back from you then we will be required by law to delete your details from our records and you will no longer receive any information from us. So we hope to hear from you all.

2018-19 Grants: This will be our third and final year concentrating on NE Wales. We have been awarded £4,000 by the Marc Fitch Fund, for which we are very grateful. We hope to soon hear the result of our grant application to the Clwydian Range & Dee Valley AONB. We continue to use the Woodtiger Fund & the Tesco "Bags of Help" fund for the activities for which they were awarded.

Branch activities continue to flourish as small groups of members follow their interests in researching house histories, recording buildings and unusual marks in houses etc. across north Wales. Merioneth members have been preparing for the May exhibition in Aberdyfi of their research in Cwm Maethlon; NE Wales members are following up the house histories of houses architecturally recorded or "dendro-dated" in last financial year's project. The Caernarfonshire / Tesco local history project goes from strength to strength.



Ymweliad â Thŷ Hyll / Tŷ Hyll visit

IF YOU ARE INTERESTED IN OLD HOUSES and are not already a member, why not consider joining the Group? The Membership Secretary is Ms Zoë Henderson membership@discoveringgoldwelshhouses.co.uk 01824 704404. For further information contact Margaret Dunn, secretary@discoveringgoldwelshhouses.co.uk 01766 890550.

DIGWYDDIADAU CANGEN: archebwch â chysylltydd cangen, fel arfer @ £2. Rydym yn hynod ddiolchgar i berchenogion tai am eu lletygarwch.

CANGEN MÔN Cyswllt: Peter Masters: 01758 750322 datingoldwelshhouses@gmail.com. Archebwch yn gynnar gan fod lle yn gyfyngedig; bydd manylion llawn yn cael eu hanfon at y rhai sy'n cael eu derbyn. **Llun 11 Mehefin:** 2 yp. Bu'n rhaid canslo'r ymweliad ar gyfer y dyddiad hwn oherwydd gwaeledd. **Llun 9 Gorffennaf:** 2 yp Ymweld â Phlas Penmynydd, ger Llangefni. Taith drwy'r tŷ, ei hanes a lluniaeth. Dathlu digwyddiadau'r flwyddyn; trafod a chynllunio gweithgareddau'r flwyddyn nesaf. **Awst:** Ni fydd cyfarfod.



Sgwrs P30 Wrexham / Wrexham U3A Talk

CANGEN ARFON A PHROSIECT HANES LLEOL TESCO Cyswllt: Peter Masters: datingoldwelshhouses@gmail.com 01758 750322. **Mercher 6ed Mehefin:** 10yb-4yp Cofnodi Pensaernïol – diwrnod ymarferol yn Nhŷ Mawr ger Beddgelert o dan arweiniad Dr Martin Cherry a Peter Thompson. Nifer Mwyaf 12. **lau 5ed Gorffennaf:** 2 yp Taith ym Meddgelert o dan arweiniad Margaret Dunn. Darganfyddwch sut y datblygodd y pentref hwn a sut i ymchwilio i gymunedau eraill. **Dydd lau 2 Awst:** 7.30 yh, Neuadd y Pentref Beddgelert. Ymchwilio tŷ a'i drigolion: sesiwn ymarferol o dan arweiniad Margaret Dunn. **Dydd lau 6 Medi:** 7.30 yh Neuadd y Pentref Beddgelert. Dathlu blwyddyn 1af prosiect Tesco gyda lluniaeth ac arddangosfeydd a rhannu cynlluniau'r dyfofol.

CANGEN CONWY Cyswllt: Tony Scharer: 01745 813027 tonyscharer@gmail.com. **Llun 11eg Mehefin:** ymweliad 11 yb i Gymryd Isaf, Henryd (neuadd-dŷ 3-uned, y rhan gynharaf tua 1500). Archebu'n angenrheidiol. **Gwen 13 eg Gorffennaf:** 9.30 Sgwrs gan Ray Castle ac Irene Pullen ar agweddau o hanes Tref Conwy. Lleoliad i'w gadarnhau. **Mawrth 18 Medi:** 10.00 yb Ymweld ag eglwysi Llanrhychwyn a Threfriw, y ddwy yn gysylltiedig â Llywelyn Fawr. Cyfarfod ym maes parcio Trefriw. **Mawrth 16 Hydref:** 2.00 yp Ymweld â Hen neuadd Cochwillan, Tal-y-bont, Bangor (diwedd y 15ed ganrif) a Melin Cochwillan (felin rawn fawr mewn cyflwr da ac yn perthyn i stad). **Mawrth 20 Tach:** 9.30 yb Pwyllgor Cangen i drafod ymchwil aelodau yn nhŷ Gill Jones, Llanddulas.

CANGEN SIR DDINBYCH Cyswllt: Janice Dale: 01490 440427 jadale22@hotmail.co.uk. Am fanylion pellach cysylltwch â Janice. **Mercher 6 Mehefin:** yn cyfarfod mewn tŷ ger

BRANCH EVENTS: book with branch contacts, usually @ £2. We thank house-owners very much for their hospitality.

ANGLESEY BRANCH Rep: Peter Masters: 01758 750322 datingoldwelshhouses@gmail.com. Please book early as places are limited; full details will be sent to those accepted. **Mon 11th June** The visit planned for this date has had to be cancelled because of illness. **Mon 9th July:** 2 pm Visit to Plas Penmynydd, near Llangefni. House tour, history & refreshments. Celebrate the year's events; discussion & planning for next year's activities. **August:** No meeting.



Sgwrs am Frychdwn / Broughton Talk

CAERNARFONSHIRE BRANCH & TESCO LOCAL HISTORY PROJECT Rep: Peter Masters: 01758 750322 datingoldwelshhouses@gmail.com. **Wed 6th June:** 10am-4pm Architectural Recording: a practical day at Tŷ Mawr near Beddgelert led by Dr Martin Cherry & Peter Thompson. Max 12. **Thu 5th July:** 2 pm Beddgelert guided walk led by Margaret Dunn. Find out how this village developed & how to research other communities. **Thu 2nd Aug:** 7.30 pm Beddgelert Village Hall. Researching a House & its Inhabitants: practical session led by Margaret Dunn. **Thu 6th Sept:** 7.30 pm Beddgelert Village Hall. Celebration of the 1st year of the Tesco project with refreshments and displays, and sharing future plans.

CONWY BRANCH Contact: Tony Scharer: 01745 813027 tonyscharer@gmail.com. **Mon 11th June:** 11 am visit to Cymryd Isaf, Henryd (3-unit hall house, earliest part c. 1500). Booking essential. **Fri 13th July:** 9.30 am Talk by Ray Castle & Irene Pullen on aspects of the history of Conwy Town. Venue tbc. **Tue 18 Sep:** 10.00 am Visit to Llanrhychwyn & Trefriw churches, both of which have connections with Llywelyn the Great. Meet in Trefriw car-park. **Tues 16 Oct:** 2.00 pm Visit to Cochwillan Old Hall, Tal-y-bont, Bangor (late 15th Century) & Cochwillan Mill (a well-preserved large estate corn-mill). **Tues 20 Nov:** 9.30 am Branch meeting to discuss members' research at Gill Jones's house, Llanddulas.

DENBIGHSHIRE BRANCH Contact: Janice Dale: 01490 440427 jadale22@hotmail.co.uk. For further details contact Janice. **Wed 6th June:** house near Corwen to practise architectural

Corwen i ymarfer cofnodi pensaernïol. Dim cyfarfodydd yng **Ngorffennaf** nac **Awst**.

CANGEN MEIRIONNYDD Cyswllt: John Townsend: 01341 430262 john@thetownsend.org.uk. **Iau 14 Mehefin** 2yp i 4yp: yn cyfarfod yn y Stafell Gymunedol yn Llyfrgell Dolgellau i drafod yr hyn y mae'r Gangen wedi ei wneud hyd yn hyn eleni a'r hyn y dymunem ei wneud am weddill y flwyddyn ac yn 2019. Un pwnc i'w drafod fydd prosiect y Grŵp ar adeiladau nenfforch. Mae'r rhain yn dyddio o'r 15fed a'r 17eg ganrif ac maent wedi eu gwasgaru yn anwastad ar draws gogledd Cymru gyda nifer sylweddol yn goroesi ym Meirionnydd. Gwelwyd nifer ohonynt yng ngogledd y sir yn y llyfr ar Dai Hanesyddol Eryri; yn fwy diweddar, mae'r grŵp wedi bod yn gweithio'n ddyfal ar Sir Ddinbych ac Edeirnion; felly mae'n bryd i ni weld beth sy'n weddill ym Meirionnydd. **Sul 15 Gorffennaf** 2.30 yp: digwyddiad Cymdeithasol yr haf Cangen Meirionnydd yng Nghesailgwm Mawr, Talcynhaeaf, Y Bont-ddu. Os am ddod gadewch i'r cydlynnydd wybod o safbwynt arlwyyo. Dim cyfarfod yn **Awst**.

CANGEN GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU Cyswllt: Margaret neu Wally Barr: magsbarr@yahoo.co.uk, wallybarr@yahoo.co.uk, y ddau ar 01745 888622. Archebwch ddigon ymlaenllaw gan fod lle yn gyfyngiedig. **Gwener 29 Mehefin** 2 yp: Ymweliad tŷ i'r Fron, Cwm, Sir y Fflint, 17 ganrif neu o bosib yn gynharach. **Mawrth 17 Gorff** 2 yp: cyfarfod o'r gangen yn Sant Winefrides, Gwespyr. Dim cyfarfod yn **Awst**.

NODYN ATGOFFA: Mae'r holl dai a grybwyllir yn y cylchlythyr hwn ac/neu sy'n gysylltiedig â DHDC yn eiddo preifat ac **nid dynt ar agor** i'r cyhoedd.

LLAWER O DDIOLCH i Gangen Môn am eu cyfraniad at yr argraffiad hwn o'r cylchlythyr.

RHOSOD TUDURAIDD

Roedd Tuduriaid Penmynydd ger Biwmares, Ynys Môn yn gefnogwyr i Dŷ Lancaster, ac yn dilyn llwyddiant Harri Tudur ym mwrwydr Bosworth yn 1485 daeth Rhyfel y Rhosynnau i ben. Aeth yr olyniaeth i ddwylo Harri ac fe simentiodd ei hawl er braidd yn denau, i'r orsedd drwy briodi Elisabeth o Efrog, merch y Brenin Edward IV, Iorciad. Bu eu priodas yn 1486 yn fodd i uno'r ddau dŷ ymladdgar unwaith ac am byth. Tua'r adeg hwn y gwnaeth Harri (bellach yn Frenin Harri VII) gyflwyno'r Rhosyn Tuduraidd, a gyfunodd rosyn coch Lancaster a rhosyn gwyn Efrog.



Rhosynnau Tuduraidd / Tudor roses

Mae [llyfrgell](#) ar lein DHDC ar gyfer Ynys Môn yn cynnwys

recording. No meetings **July** or **August**.

MERIONETH BRANCH Contact: John Townsend: 01341 430262 john@thetownsend.org.uk. **Thurs 14th June** 2pm to 4pm: meeting in Community Room at Dolgellau Library to discuss what the Branch has done so far this year and what we may wish to take on for the rest of this year and into 2019. One of the subjects for discussion will be the Group's project on cruck buildings. These date from the 15th to the 17th centuries and are spread unevenly across North Wales with a substantial number surviving in Merioneth. The Snowdonia Houses book took in a number in the north of the county; more recently, the Group has done a lot on Denbighshire and Edeirion; now it would be good to look what's left in Merioneth. **Sunday 15th July**, 2.30 pm: Merioneth Branch Summer Social event at Cesailgwm Mawr, Taicynhaeaf, Bontddu. For catering purposes please let rep know if you intend to come. No meeting in **August**.

NORTH EAST WALES BRANCH Contact: Margaret or Wally Barr: magsbarr@yahoo.co.uk, wallybarr@yahoo.co.uk, both on 01745 888622. Please book well in advance as places are limited. **Fri 29th June** 2pm: house visit to Fron, Cwm, Flintshire, 17th century or possibly earlier. **Tues 17th July** 2pm: branch meeting at St Winefrides, Gwespyr. No meeting in **August**.

REMINDER: all the houses mentioned in this Newsletter and/or linked with DOWH are private property and are **NOT** open to the public.

MANY THANKS to the Anglesey Branch for their contribution to this issue of the newsletter.

TUDOR ROSES

The Tudors of Plas Penmynydd near Beaumaris in Anglesey were supporters of the House of Lancaster, and following the success of Henry Tudor at the Battle of Bosworth in 1485 the Wars of the Roses came to an end. Henry secured the succession and cemented his rather tenuous claim to the throne by marrying Elizabeth of York, the daughter of the Yorkist King Edward IV. Their marriage in 1486 united the two warring houses once and for all, and it was around this time that Henry (now King Henry VII) introduced the Tudor Rose, which combined the red rose of Lancaster with the white rose of York.

The DOWH on-line [library](#) for Anglesey contains Dendro Reports and House Histories for several houses in Beaumaris, and in particular 32 Castle Street (known as 'Tudor Rose') and 34 Castle Street, 'Red Boat.' Both of these properties have carved roses either incorporated into their beams or as adornments to the roof-braces. In 'Tudor Rose' there is also a rose carving on a fireplace arch.

Both these properties have timbers with felling-dates dendro-dated to 1485/6 and 1483 respectively which fits in nicely with the end of the War but which also suggests that these houses were under construction or built before the Tudor reign was established.

Adroddiadau Dendro a Hanes Tai i sawl tŷ ym Miwmares, ac yn fwyaf arbennig i 32 Stryd y Castell (gyda'r enw 'Tudor Rose') a 34 Stryd y Castell, Red Boat. Mae'r ddau eiddo hyn â rhosynnau wedi eu cerfio a'u hymgorffori yn y trawstiau neu fel addurniadau i'r cyplau to. Yn 'Tudor Rose' gwelir hefyd gerflun o roslyn ar fwa'r lle tân.



32 Stryd y Castell, Biwmares. 'Tudor Rose' (c1485/6) / 32 Castle Street, Beaumaris. 'Tudor Rose' (c1485/6)



32 Stryd y Castell, 'Tudor Rose': rhosyn Lancast'r? (nodwedd heb ei dyddio) / 32 Castle Street, 'Tudor Rose': rose of Lancaster? (undated feature)

Mae'r ddau eiddo hyn â choed wedi eu dyddio a'u dendro ddyddio i 1485/6 a 1483 yn eu tro. Mae hyn yn cyd-fynd yn dda â diwedd y Rhyfel ond hefyd yn awgrymu fod y tai hyn yn cael eu hadeiladu neu wedi eu hadeiladu cyn sefydlu teyrnasiad y Tuduriaid.

So were the carvings already extant or later additions? They would appear to be single, in the style of House of Lancaster roses – not the double Tudor roses of unification, as can be seen.



32 Stryd y Castell, Biwmares. 'Tudor Rose' (c1485/6) / 32 Castle Street, Beaumaris. 'Tudor Rose' (c1485/6)



34 Stryd y Castell, 'Red Boat' (c.1483) / 34 Castle Street, 'Red Boat' (c.1483)

Felly a oedd y cerfiadau yn bod yn barod neu wedi eu hychwanegu yn hwyrach? Maent yn ymddangos yn rhai sengl, yn steil rhosod Tŷ Lancast'r – nid rhosynnau uniad dwbl y Tuduriaid fel a welir.

The RCHAMW simply notes them as 'Roses'; Cadw ignores them.

Mae CBHC yn nodi'n syml taw 'Rhosynnau' ydynt; tra bod Cadw yn eu hanwybyddu.

The question is, when was 32 Castle Street named 'Tudor Rose,' and by whom? Who identified the roses as Tudor?

Y cwestiwn yw, pa bryd y cafodd 32 Stryd y Castell yr enw 'Tudor Rose', a gan bwy? Pwy wnaeth adnabod y rhosynnau fel rhai Tuduraidd?

The tomb of Willam Bulkeley, Deputy Constable of Beaumaris Castle, and his wife Elin is to be found in the Church in Beaumaris. The tomb is dated c.1490, but he died in 1484, according to Griffith's *Pedigrees*. One biography states: William Bulkeley, a courtier from a Cheshire family, acquired an estate in north Wales under the Yorkists, by



Beddrod Syr William Bulkeley a'i wraig Elin yn eglwys Santes Fair a Sant Nicolas, Biwmares / Tomb of Sir William Bulkeley and Elin his wife in St Mary's and St Nicholas' Church, Beaumaris © Jeff Buck (CC BY-SA 2.0)

purchase at Beaumaris, where he was Deputy Constable of the castle, and by inheritance, through marriage into the powerful Griffith family of Penrhyn. Another Pedigree states William de Bulkeley of Cheadle (born about 1418 and died 1488) went to Anglesey and was Constable of Beaumaris in 1440.

In 1370 John of Gaunt introduced the collar of SS which became the symbol of the house of Lancaster. This was awarded from that date to 1460 and again from 1485 until discontinued by Edward VI in 1549. William Bulkeley's effigy displays such a collar.



Delw o Syr William Bulkeley ar ei feddrod yn Eglwys y Santes Fair a Sant Nicolas, Biwmares / Effigy of Sir William Bulkeley on his tomb in St Mary's and St Nicholas' Church, Beaumaris

Gellir dod o hyd i feddrod William Bulkeley, Prif Gwnstabl Castell Biwmares, a'i wraig Elin yn yr Eglwys ym Miwmares. Y dyddiad ar y bedd yw c.1490, ond bu farw yn 1484, yn ôl Achau Griffith. Noda un bywgraffiad: Cafodd William Bulkeley, gŵr llys o deulu yn Swydd Gaer, stad yng Ngogledd Cymru o dan y Iorciaid, drwy brynu ym Miwmares, lle roedd yn Ddirpwy Gwnstabl y castell a thrwy etifeddu, o ganlyniad i briodi i mewn i deulu pwerus Griffith o Benrhyn. Mae un ach arall yn nodi fod William de Bulkeley o Cheadle, a anwyd yn 1418 a marw yn 1488 wedi mynd i Ynys Môn a'i fod yn Gwnstabl Biwmares yn 1440.


Yn 1370 cyflwynwyd y goler SS gan John o Gaunt. Daeth hon yn symbol o dŷ Lancastr ac roedd yn cael ei dyfarnu o'r dyddiad hwnnw hyd at 1460 ac eto o 1485 hyd daeth i ben o dan Edward VI yn 1549. Mae delw William Bulkeley yn arddangos coler fel hon.

Dim ond 115 o ddelwau yn y DU gyfan sydd â SS coler, ac o'r rhain roedd 102 yn ddyinion a 13 yn fenywod. Roedd llawer yn dilyn y Lancastriaid ym Miwmares yr adeg hwn, ac roedd y 'rhosynnau' fel petaent yn adlewyrchu hyn.

Only 115 effigies in the entire UK have SS collars, of which 102 are men and 13 are ladies. Beaumaris at this time would have had a strong Lancastrian following, and the "roses" would seem to reflect this.

Peter Masters, Cynrychiolydd Cangen Môn

Peter Masters, Anglesey Branch Rep



Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales





DARGANFOD HEN DAI CYMREIG DISCOVERING OLD WELSH HOUSES



Dathlu Treftadaeth Cymru drwy astudio tai traddodiadol a bywydau'r bobl fu'n byw ynddynt.

Celebrating Welsh Heritage through the study of traditional houses and the lives of the people who lived in them.

CYLCHLYTHYR 24 Mawrth 2018

NEWSLETTER 24 March 2018

EIN GWEFAN <http://discoveringoldwelshhouses.co.uk> yw prif sianel gyfathrebu'r Grŵp – defnyddiwch hi i weld mwy o fanylion am y digwyddiadau diweddar a'r rhai sydd ar ddod, ac i edrych ar ein llyfrgell sy'n cynyddu'n gyson ac ar nodweddion eraill.

GAIR O'R GADAIR: Cyn bo hir bydd y gaeaf hir a diflas hwn sy'n oer a gwlyb, drosodd a gallwn i gyd edrych ymlaen at raglen ddiddorol o ymweliadau dendro yn ogystal â'r daith Astudio ym Medi i Cumbria. Erfyniaf arnoch i archebu'n gynnar er mwyn osgoi cael eich siomi! Yn y cyfamser, mae'r holl wynt a glaw hwn yn ei gwneud yn amser ardderchog i'r Canghennau ddal i fyny â'u hymchwil, blwy wrth blwy, o'r tai a fuasai o ddiddordeb i ni. Mae rhai ohonynt yn dra chyfarwydd, ond ceir eraill na wyddom ddim amdanynt. Rhoddaf botel o Sieri llesol i bob Aelod Cangen sy'n darganfod tŷ nas gwyddom amdano o'r unfed ganrif ar bymtheg neu gynharach yn eu plwyfi, a bydd Margaret yn falch ofnadwy o weld y bylchau yn ein harchifau yn anelu at gofnod mwy cyfansawdd. Pob Hwyl!

Richard Cuthbertson, Cadeirydd

OUR WEBSITE <http://discoveringoldwelshhouses.co.uk> is the Group's main channel of communication – please visit it to see details of recent and forthcoming events and to look at our growing library and other features.

FROM THE CHAIR: Soon, this long, cold, wet, wearisome winter will be over and we can all look forward to the interesting programme of dendro visits and the Study tour in September to Cumbria. I urge you all to book early and avoid disappointment! In the meantime all this wind and rain make it the perfect time for Branches to catch up on their research, parish by parish, of houses that would be of interest to us. Some are well known, some we know a little about, and there are some we know nothing about. I will give a bottle of medicinal Sherry to every Branch Member who discovers a sixteenth century or earlier house in their parishes that we do not know about, and Margaret will be very pleased to have the gaps in our archives moving to a more comprehensive record. Good Luck!


Richard Cuthbertson, Chairman



Tŷ Fry

NEWYDDION DIWEDDARAF

Prosiect GDdn Cymru: Blwyddyn 2: O'r 100 a mwy o dai yr ymwelwyd â hwy, cafwyd caniatâd gan 38 perchen tŷ a allai fod yn addas, aseswyd 26 o safbwynt dendro cronolegol; ystyrid 6 yn addas ar gyfer eu samplu, ond dim ond tri o'r rhain oedd wedi eu dyddio. Roedd y canlyniadau yn bwysig iawn. Yn Nhŷ Gwyn cymunwyd pren y nenfforch yn y tŷ neuadd hwn yn 1447: a choed y sgrîn ar ôl 1520 a'r corn simdde yn cael ei osod yn 1578. Yn yr Hendre fe gymunwyd pren nenfforch y tŷ neuadd hwn yn 1502/03; gosodwyd y corn simdde yn 1586/7; ychwanegwyd cegin i'r GOn o'r



Neuadd nenfforch Sir Ddinbych / Denbighshire cruck hall-house, 1447. Llun / drawing: Peter Thompson

NEWS UPDATE

NE Wales project: Year 2: Of the 100+ houses visited, 38 owners of potentially suitable houses gave permission, 26 were assessed for dendrochronology; 6 were thought suitable for sampling, but only three of these dated. The

neuadd nenfforch yn 1682/3 a daeth yr adain wasanaeth y nenfforch yn barlwr yn 1794. Dyddiadau cymuno tebygol coed Garneddwen Fawr oedd 1557-87. Mae'r rhain a thai eraill yn cael eu cofnodi'n bensaernïol ar hyn o bryd ac mae hanes tua chwe tŷ wethi'n cael eu hymchwilio.



Neuadd nenfforch Sir Ddinbych / Denbighshire cruck hallhouse

Gwaith Allanol yn parhau gyda sgysiau yn cael eu rhoi i gymunedau ar draws gogledd Cymru. Bydd arddangosfa 'n cael ei chynnal yn Llyfrgell Prestatyn ar 12-16 Mawrth, gyda sgwrs yn Saesneg am 2yp ar 12 Mawrth.

Mae **Prosiect Hanes Lleol a noddir gan 'Bagiau o Gymorth' Gymunedol Tesco** yn parhau i ddenu pobl newydd i'w ddigwyddiadau misol. Hefyd mae **Cangen Môn DHDC** a ailanswyd yn denu pobl newydd i'w weithgareddau misol. Mae canghennau eraill yn dal i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn dilyn gweithgareddau addas i ddi-ddordebau eu haelodau ac maent i gyd yn dechrau cymharu gwybodaeth y cytunir ami ar gyfer helpu ein cynllunio strategol ar gyfer y dyfodol. Yn 2018-19 agwedd allweddol ein gweithgaredd fydd canolbwyntio ar adeiladau nenfforch gogledd Cymru.

GOLYGYDD Y CYLCHLYTHYR: Mae ein golygydd presennol yn ymddeol *ar ôl y rhifyn nesaf*, ac rydym yn chwilio'n daer am rhywun i wneud y gwaith, hwyrach am 2 flynedd. Os ydych â diddordeb neu os gellwch awgrymu rhywun, cysylltwch â 01766 890550.

OS YDYCH Â DIDDORDEB MEWN HEN DAI ond ddim eto yn aelod, pam na ystyriwch ymuno a'r Grŵp? Ysgrifennydd Aelodaeth yw Ms Zoë Henderson 01824 704404 membership@discoveringgoldwelshhouses.co.uk. Am wybodaeth bellach cysylltwch â Margaret Dunn, yr Ysgrifenyddes secretary@discoveringgoldwelshhouses.co.uk 01766 890550.

DIGWYDDIADAU GRŴP

Rydym yn brysur yn paratoi ar gyfer **cynhadledd wanwyn Grŵp Pensaernïaeth Werinol DU 2018** ym Mangor yn Ebrill. Bydd y cynrychiolwyr yn treulio dyddiau yn ymweld â thai ar Ynys Môn, yn Siroedd Dinbych a Chonwy. Bydd angen gwirfoddolwyr yn nes at yr amser i fod yn stiwardiaid ayb. **Taith Astudio GDHDC i Cumbria, Medi 10-13 2018.** Bydd Taith Astudio eleni yn ymweld â rhai tai ac adeiladau hen a diddorol yn Cumbria. Bydd ein coets yn ein cludo am bedwar diwrnod i amrywiaeth o fannau preifat a chyhoeddus, yn aml

results were very important. In Ty Gwyn the cruck hallhouse timber was felled in 1447; the screen timbers after 1520 & the chimney stack inserted in 1578. At Hendre the cruck hallhouse timber was felled in 1502/03; the chimney stack inserted in 1586/7; a kitchen added NW of the cruck hall in 1682/3 & the service wing of the cruck range became a parlour in 1794. The likely tree felling dates for Garneddwen Fawr were 1557-87. These and other houses are currently being architecturally recorded and around six house histories are being researched.



Neuadd Sir Ddinbych / Denbighshire hall-house 1502/03

Outreach continues with talks given to communities across north Wales. An exhibition will be held in Prestatyn Library from 12–16 March, with a talk in English at 2 pm on 12 March.

The **Tesco Community "Bags of Help" Award funded Local History Project** in the Beddgelert area continues to draw in new people to its monthly events. The re-launched **DOWH Anglesey Branch** is also attracting new people to its monthly activities. Other branches continue to meet regularly to pursue activities appropriate to the interests of their members and all are starting to collate agreed information to assist our strategic planning for the future. Emphasis on the cruck buildings of north Wales will become a key aspect of activity in 2018-19.

NEWSLETTER EDITOR: Our current editor retires *after the next number*, and we are looking urgently for someone to take over, perhaps for 2 years. If you are interested or can suggest someone, please contact 01766 890550.

IF YOU ARE INTERESTED IN OLD HOUSES and are not already a member, why not consider joining the Group? The Membership Secretary is Ms Zoë Henderson membership@discoveringgoldwelshhouses.co.uk 01824 704404. For further information contact Margaret Dunn, secretary@discoveringgoldwelshhouses.co.uk 01766 890550.

GROUP EVENTS

We are busy preparing for the **2018 Vernacular Architecture Group UK spring conference** based in Bangor in April. The delegates will spend days visiting houses in Anglesey, Denbighshire and Conwy. Volunteers will be needed nearer the time to act as stewards etc.

yng nghwmni aelodau gwybodus o Grŵp Adeiladau Brodorol Cumbria. Byddwn yn aros yng ngwesty cain Victorian Hallmark yng nghanol Caerliwelydd a phob nos fe gawn sgwrs gan arbenigwr lleol. Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi mynegi diddordeb mewn ymuno â'r Daith Astudio, er os nad ydych wedi mynegi diddordeb mae croeso mawr i chi ymuno. Bydd y gost tua £300. Byddwn mewn cysylltiad yn fuan â'r holl aelodau i dderbyn archebion pendant. Yn y cyfamser, os ydych am unrhyw wybodaeth bendant am y Daith Astudio, cysylltwch â Wally Barr: wallybarr@yahoo.co.uk 01745 888622.

DIGWYDDIADAU CANGEN: archebwch â chysylltydd cangen, fel arfer @ £2. Rydym yn hynod ddiolchgar i berchenogion tai am eu lletygarwch.

CANGEN MÔN Cyswllt: Peter Masters: 01758 750322 datinggoldwelshhouses@gmail.com. Archebwch yn gynnar gan fod lle yn gyfyngedig; bydd manylion llawn yn cael eu hanfon at y rhai sy'n cael eu derbyn. **Dydd Mawrth, Mawrth 6ed:** Mewn Cymraeg (addas i ddysgwyr) ymweliad awyr agored am 2yp i Lys Rhosyr, Niwbwrch, o dan arweiniad Rhys Mwyn, i weld safle llys y Tywysogion a thrafod neuaddau Tywysogion Cymru. Nifer mwyaf 20. **Gwener 20fed Ebrill** ymweliadau 2yp i ddau arall o dai C15 a C16 ym Miwmares. Nifer mwyaf 20. **Iau 17eg Mai** am 2yp yn Swyddfa Gofnodi Llangefni. Ymchwil, gyda help, tŷ dewisol ar Ynys Môn, neu un o'ch dewis chi. Nifer Mwyaf 12. **Llun 11eg Mehefin** Ymweliad i Blas Bodafon, Penrhoslligwy: Gwreiddiau C16 a math corn simdde canolog C17. Taith, sgwrs a lluniaeth. Nifer mwyaf 20. **Llun 9fed Gorffennaf** Ymweliad 2yp i Blas Penmynydd, ger Llangefni. Taith drwy'r tŷ, hanes a lluniaeth. Dathlu digwyddiadau'r flwyddyn; trafod a chynllunio gweithgareddau'r flwyddyn nesaf.



Tŷ Sir y Fflint / Flintshire house: 1557-87

CANGEN ARFON A PHROSIECT HANES LLEOL TESCO Cyswllt: Peter Masters: datinggoldwelshhouses@gmail.com 01758 750322. **Iau 15ed Mawrth:** Ymweliad am 1.45yp i Blas Brondanw, Llanfrothen drwy ganiatâd caredig Ymddiriedolaeth Susan Williams-Ellis. Anerchiadau: "Tai rhai o hynafiaid Williams-Ellis" gan Margaret Dunn; "Clough Williams-Ellis a Phlas Brondanw" gan Dylan Williams, Curadur. **Mawrth 17eg Ebrill:** Ymweliad i Lwyn Bedw, Waunfawr. Mae gan y tŷ Elisabethaidd hwn a adferwyd yn hyfryd ac sydd ar gynllun Eryri, hanes cyfareddol. **Llun 21ain Mai:** ymweliad 2 yp i Dŷ Hyll i weld a chlywed am y tŷ a

DOWHG Study Tour to Cumbria, Sept 10th-13th 2018. This year's Study Tour will visit some old and fascinating houses and buildings in Cumbria. Over four days our coach will take us to a range of private and public venues, often in the company of knowledgeable members of the Cumbria Vernacular Buildings Group. We'll stay at the elegant Victorian Hallmark Hotel in the centre of Carlisle and each evening will have a talk given by a local expert. We thank all those who have expressed an interest in joining the Study Tour, though if you did not express an interest you are of course very welcome to come along. The cost is likely to be around £300. We will shortly be in touch with all members to take firm bookings. In the meantime, if you would like any further information about the Study Tour, please contact Wally Barr: wallybarr@yahoo.co.uk 01745 888622.

BRANCH EVENTS: book with branch contacts, usually @ £2. We thank house-owners very much for their hospitality.

ANGLESEY BRANCH Rep: Peter Masters: 01758 750322 datinggoldwelshhouses@gmail.com. Please book early as places are limited; full details will be sent to those accepted. **Tue 6th Mar:** In Welsh (suitable for learners) 2 pm outdoor visit to Llys Rhosyr, Newborough, led by archaeologist Rhys Mwyn, to see the site of the Princes' court & discuss the halls of the Welsh Princes. Max 20. **Fri 20th Apr** 2 pm visits to two more C15 & C16 houses in Beaumaris. Max 20. **Thu 17th May** 2 pm at Llangefni Record Office. Research, with help, a selected Anglesey house, or one of your choice. Max 12. **Mon 11th June** 2 pm Visit to Plas Bodafon, Penrhoslligwy: C16 origins & C17-type central chimney stack. Tour, talk & refreshments. Max 20. **Mon 9th July** 2 pm Visit to Plas Penmynydd, near Llangefni. House tour, history & refreshments. Celebrate the year's events; discussion & planning for next year's activities.



Archifau Ynys Môn / Anglesey Archives

CAERNARFONSHIRE BRANCH & TESCO LOCAL HISTORY PROJECT Rep: Peter Masters: 01758 750322 datinggoldwelshhouses@gmail.com. **Thu 15th March:** 1.45 pm Visit to Plas Brondanw, Llanfrothen by kind permission of the Susan Williams-Ellis Foundation. Talks: "The houses of some Williams-Ellis ancestors" by Margaret Dunn; "Clough Williams-Ellis & Plas Brondanw" by Dylan Williams, Curator. **Tue 17th April:** Visit to Lwyn Bedw, Waunfawr. This beautifully restored Elizabethan Snowdonia-plan house has a fascinating history. **Mon 21st May:** 2 pm visit to Tŷ Hyll / the Ugly House to see & hear about the house & the Snowdonia

Chymdeithas Eryri, yna taith gerdded gron gerllaw a the yn y caffi. **Mercher 6ed Mehefin:** 10yb-4yp Cofnodi Pensaernïol – diwrnod ymarferol yn Nhŷ Mawr ger Beddgelert o dan arweiniad Dr Martin Cherry a Peter Thompson. Nifer Mwyaf 12. **Iau 5ed Gorffennaf:** 2 yp Taith ym Meddgelert o dan arweiniad Margaret Dunn. Darganfyddwch sut y datblygodd y pentref hwn a sut i ymchwilio i gymunedau eraill. Hefyd **Iau 2il Awst** a **Iau 6ed Medi:** manylion i ddilyn.

CANGEN CONWY Cyswllt: Tony Scharer: 01745 813027 tonyscharer@gmail.com. **Gwen 11eg Mai** 10 yb Taith dan arweiniad o Blas Mawr, Conwy. Archebu'n angenrheidiol. **Llun 11eg Mehefin** ymweliad 11 yb i Gymryd Isaf, Henryd (neuadd-dŷ 3-uned, y rhan gynharaf tua 1500). Archebu'n angenrheidiol. **Gwen 13 eg Gorffennaf** 9.30 Sgwrs gan Ray Castle ac Irene Pullen ar agweddau o hanes Tref Conwy. Lleoliad i'w gadarnhau.

CANGEN SIR DDINBYCH Cyswllt: Janice Dale: 01490 440427 jadale22@hotmail.co.uk. Am fanylion pellach cysylltwch â Janice. **Mer 14eg Mawrth** 2 yp tŷ C17 sy'n eiddo i aelod rhwng Corwen a Llangollen. **Iau 19eg Ebrill** 7 y nos, tŷ aelod a ddendr-ddyddiwyd yn ddiweddar ger Llandrillo. **Mawrth 15ed Mai** 2.30 yp tŷ aelod ger Llandrillo ar gyfer cofnodi'n bensaernïol gyda Martin Cherry (i'w gadarnhau). **Merch 6ed Mehefin:** tŷ ger Corwen ar gyfer ymarfer cofnodi pensaernïol.



Tŷ Meirionnydd: ymchwil yn y dyfodol / Merioneth house: future research

CANGEN MEIRIONNYDD Cyswllt: John Townsend: 01341 430262 john@thetownsend.org.uk. **Mawrth 27ain Mawrth,** 10.30-12.30 yn Llyfrgell Dolgellau, LL40 2YF, sgwrs ddarluniadol ar “Yr Hen Ffyrdd – Ffyrdd y Porthmyn, Mwyngloddiau Aur a Straeon y Rhinogydd” gan Jean Napier. **Ebrill** (dyddiad ac amser i'w cadarnhau) ymweliad i Wembraichdwr, Llandderfel, LL21 0PF (neuadd-dŷ agored tair rhan, 1611 yn debygol). **Merch 9fed Mai** 2 yp: dwy eglwys nodedig – St Tydecho ym Mallwyd, cybolfa ddiddorol yn rhannol ganoloesol, wedi ei thrawsfurfio yn y G17 gan y ficer, John Davies, ysgolor beiblaidd a chasglwr y geiriadur Cymraeg a Saesneg cyntaf, ac a newidwyd eto yn nechrau'r G19; a St Tydecho Cemais gyda tho bwa gafaelfachog gwych o'r 15ed ganrif. **Sad 26ain Mai,** 11-6, yng Nghanolfan Aberdyfi, LL35 0LW. Arddangosfa o waith DHDC, a lansio llyfryn cangen ar ‘Hanes Cwm Maethlon’ (ger Tywyn). **Mercher 1af bob mis,** 9.30-12.30: Mae Archifau Dolgellau yn agored yn unig ar gyfer aelodau GDHDC.

CANGEN GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU Cyswllt: Margaret neu Wally Barr: magsbarr@yahoo.co.uk,

Society, then circular walk nearby & tea in the café. **Wed 6th June:** 10am-4pm Architectural Recording: a practical day at Tŷ Mawr near Beddgelert led by Dr Martin Cherry & Peter Thompson. Max 12. **Thu 5th July:** 2 pm Beddgelert guided walk led by Margaret Dunn. Find out how this village developed & how to research other communities. Also **Thu 2nd Aug** and **Thu 6th Sept:** details to follow.

CONWY BRANCH Contact: Tony Scharer: 01745 813027 tonyscharer@gmail.com. **Fri 11th May** 10 am Guided tour of Plas Mawr, Conwy. Booking essential. **Mon 11th June** 11 am visit to Cymryd Isaf, Henryd (3-unit hall house, earliest part c. 1500). Booking essential. **Fri 13th July** 9.30 Talk by Ray Castle & Irene Pullen on aspects of the history of Conwy Town. Venue tbc.

DENBIGHSHIRE BRANCH Contact: Janice Dale: 01490 440427 jadale22@hotmail.co.uk. For further details contact Janice. **Wed 14th March** 2 pm, a member's C17 house, between Corwen & Llangollen. **Thu 19th April** 7 pm, a member's house, recently dendro-dated near Llandrillo. **Tue 15th May** 2.30 pm a member's house near Llandrillo for architectural recording with Martin Cherry (TBC). **Wed 6th June:** house near Corwen to practise architectural recording.



Ymweliad prosiect Sir Gaernarfon/Tesco i Dŷ Fry / Caernarfonshire/Tesco project visit to Tŷ Fry

MERIONETH BRANCH Contact: John Townsend: 01341 430262 john@thetownsend.org.uk. **Tue 27th March,** 10.30-12.30 in Dolgellau Library, LL40 2YF, an illustrated talk on “The Old Ways – Drivers’ Roads, Gold Mines and Tales of the Rhinogydd” by Jean Napier. **April** (day and time to be confirmed) visit to Gwernbraichdwr, Llandderfel, LL21 0PF (tripartite open hall-house, probably 1611). **Wed 9th May** 2 pm: two remarkable churches – St Tydecho's Mallwyd, a fascinating hotchpotch, medieval in part, transformed in C17 by the vicar, John Davies, biblical scholar and compiler of the first Welsh and English dictionary, and altered again in the early 19th century; & St Tydecho's Cemais with a splendid 15th century arch-braced roof. **Sat 26th May,** 11-6, in the Aberdyfi Institute, LL35 0LW. Exhibition of DOWH work, and launch of a Branch booklet on the ‘History of Cwm Maethlon’ (near Tywyn). **1st Wed in the month,** 9.30-12.30: Dolgellau Archives is open solely for DOWHG members.

NORTH EAST WALES BRANCH Contact: Margaret or Wally Barr: magsbarr@yahoo.co.uk, wallybarr@yahoo.co.uk, both on 01745 888622. **Fri 2nd March:** House History training

wallybarr@yahoo.co.uk, y ddau ar 01745 888622. **Gwener 2il Mawrth:** Sesiwn Hyfforddi ar gyfer Hanes Tai, Llyfrgell Penarlâg, 2-4yp. **Ebrill:** Cyfarfod cangen yn nhŷ aelod yn Llanasa, ynghyd ag ymweliad i Henblas C17eg, Llanasa. Dyddiad i'w benderfynu. **Mai:** Gweithdy Adeiladu Treftadaeth, Llanrwst ac ymweliad posibl i Gastell Gwydyr. Dyddiad i'w benderfynu. **Mehefin:** Cyfarfod Cangen. Dyddiad i'w benderfynu.

NODYN ATGOFFA: Mae'r holl dai a grybwyllir yn y cylchlythyr hwn ac/neu sy'n gysylltiedig â DHDC yn eiddo preifat ac **nid ydynt ar agor** i'r cyhoedd.

LLAWER O DDIOLCH i Gangen GDd Cymru am eu cyfraniad at yr argraffiad hwn o'r cylchlythyr.

LLORIAU CERRIG PATRYMOG MEWN TAI O'R UNFED GANRIF AR BYMTHYG YNG NGOGLEDD CYMRU (a chapel o'r ail ganrif ar bymtheg)

Ceir sawl enghraifft o loriau cerrig fflagiog patrymog yng ngogledd Cymru a gwelsom dri ohonynt yn ystod ymweliadau GDHDC. Mae'r enghreifftiau domestig i'w cael mewn ffermdai sylweddol a thai byddigions sy'n dyddio o ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg. Y chapel o'r ail ganrif ar bymtheg yw Gwydyr Uchaf (CADW) ger Llanrwst a adeiladwyd gan Syr Richard Wynn yn 1673.

Mae pob llawr â cherrig lleol, unffurf: a cheir yr effaith addurniedig drwyddo draw drwy geometreg y slabiau unigol. Mae'r patrwm yn cynnwys slab sgwâr wedi ei amgylchynu gan bedwar hecsagon sydd gyda'i gilydd yn creu octagon. Mae ochr y sgwâr yn amrywio o 12" ar lawr y chapel i 18". Mae'r lloriau hyn i'w gweld ym mhrif stafell y tŷ. Mae meintiau y lloriau yn amrywio: a maint y ddau fwyaf a fesurwyd yw tua 18'x34' a 22'x25'.



Bryngwyn Mawr

Yn achos un o'r enghreifftiau, awgrymwyd sawl degawd yn ôl y gallai'r llawr fod wedi ei ail-leoli o abaty gerllaw yn dilyn Diddymiad y Mynachlogydd adeg Harri'r Wythfed. Os felly gallai'r lleill hefyd fod wedi tarddu o sefydliadau mynachlogaidd: daw Abaty Maenan ac Abaty Dinas Basing yn syth i'r meddwl. Mae archwiliad manwl agos o'r lloriau yn dangos eu bod yn ffitio'n dda reit at gorneli'r gofod, hwyrach yn awgrymu eu bod wedi eu creu a'u gosod *in situ* yn hytrach na'u cludo o rywle arall a'u gwneud i ffitio. Mae hyn hefyd yn wir am lawr y chapel preifat, er nad oes ganddo ond un hyd o'r patrwm, sydd ar ben dwyreiniol corff yr eglwys.

Gwnes rannu'r holl wybodaeth hon â hanesydd pensaernïol

session, Hawarden Library, 2-4pm. **April:** Branch meeting at a member's house in Llanasa, along with a visit to C17th Henblas, Llanasa. Date TBA. **May:** Heritage Building Workshop, Llanrwst & possible visit to Gwydir Castle. Date TBA. **June:** Branch meeting, Date TBA.

REMINDER: all the houses mentioned in this Newsletter and/or linked with DOWH are private property and are **NOT** open to the public.

MANY THANKS to the NE Wales Branch for their contribution to this issue of the newsletter.

PATTERNED STONE FLOORS IN SIXTEENTH CENTURY HOUSES IN NORTH WALES

(and a seventeenth-century chapel)

There are several examples of patterned stone-flagged floors in north Wales, three of which have been seen during DOWHG visits. The domestic examples are in substantial farmhouses and gentry houses which date from the second half of the sixteenth century. The seventeenth-century chapel is Gwydir Uchaf (CADW) near Llanrwst, built by Sir Richard Wynn in 1673.

The stone is local and uniform in each floor: the decorative effect is achieved entirely through the geometry of the individual slabs.

The pattern consists of a square slab surrounded by four hexagons which together create an octagon. The side of the square varies from 12" in the floor of the chapel to 18". These floors are found in the principal room of the house. The floor sizes vary: the two largest ones measured are about 18'x34' and 22'x25'.

In the case of one of the examples it was suggested some decades ago that the floor may have been relocated from a nearby abbey following Henry the Eighth's dissolution of the monasteries. If that were so it could be that the others were also originally from local monastic establishments: Maenan Abbey and Basingwerk Abbey immediately come to mind. But a close examination of the floors shows that they are a good fit right to the corners of the space, perhaps suggesting that they were created and laid out *in situ* rather than brought from elsewhere and made to fit. This is also the case with the floor of the private chapel, even though it has only one length of the pattern, which is at the east end of the nave floor.

proffesiynol a phrofiadol a awgrymodd yn syth fod y cynllun yn edrych ei fod yn ymddangos yn perthyn i arddull y Dadeni yn hytrach nag i'r Canoloesoedd ac felly yn bwrw amheuaeth ar unrhyw gyswllt mynachaid. Mae'n awgrymu y gallasai'r cynllun fod wedi deillio o rai y pensaer Eidalaid Sebastiano Serlio (1475-1554). Gwyddom fod ei lawlyfrau darluniadol yn barod yn cylchredeg ar ochr hon y Sianel yn yr unfed ganrif ar bymtheg, oherwydd gwyddom er enghraifft, fod copiâu gwreiddiol yn dal i fodoli yn llyfrgelloedd colegau Rhydychen a Chaergrawnt er na chawsont eu cyfieithu i Saesneg tan 1611. Nid oedd y rhanbarth hwn o ogledd Cymru lle cafwyd hyd i'r lloriau hyn yn ferddwr, ond yn hytrach roedd yn ardal ffyniannus yn ystod diwygiad yr unfed ganrif ar bymtheg ac yn gartref i nifer o ffigurau diplomatig a llenyddol a oedd yn gyfarwydd â syniadau a steiliau Ewropeaidd diweddaraf gan eu dwyn yn ôl i Gymru a'u cymhwyso i'w tai yma – er enghraifft Syr Richard Clough (1530-1570) o Ddinbych.

I shared all this information with an experienced professional architectural historian who immediately suggested that the design looks renaissance in style rather than medieval, which therefore casts doubt on any monastic connection. He suggests that the design may have been derived from those of the Italian architect Sebastiano Serlio (1475-1554). We know that his illustrated handbooks were already circulating on this side of the channel in the sixteenth century, because original copies still exist in the libraries of Oxford and Cambridge colleges, for instance, although they weren't translated into English until 1611. The region of north Wales where we find these floors was no backwater, but was flourishing during the sixteenth-century renaissance and was the home of numerous diplomatic and literary figures who were familiar with the latest European ideas and styles and brought them back to Wales, applying them to their houses here – Sir Richard Clough (1530-1570) of Denbigh, for example.

Mae chwe enghraifft o'r lloriau hyn wedi eu hadnabod hyd yn hyn. Yn ogystal â Chapel Gwydyr Uchaf maent yn cynnwys Gelli-aur ac un arall yn Llanasa, Neuadd Maenan ger Llanrwst, Bryngwyn Mawr yn Nhremeirchion ac un ym Modelwyddan. Rydym yn y broses o adnabod tai mawr eraill yn ein hardal sy'n dyddio o'r cyfnod hwn ac eleni gobeithiwn 'ddarganfod' mwy o'r lloriau arbennig hyn, GOBEITHIO GYDA'CH CYMORTH CHI. Diddorol fuasai gallu, drwy hanesion tai, yn y pen draw arddangos cysylltiadau rhwng y tai hyn a'r dynion niferus o ddylanwad a dysg o ogledd Cymru a oedd yn cludo syniadau newydd i'n hardal ni. Fe hoffem yn fawr wybod os oes unrhyw ddarllenwyr yn ymwybodol o'r math hwn o loriau yn rhywle arall yng nogledd Cymru. (Yn anffodus nid yw Peter Smith yn ei lyfr cyfansawdd *Houses of the Welsh Countryside*, 1975, yn rhoi unrhyw sylw i loriau na phalmentydd.)

Six examples of these floors have been identified so far. As well as Gwydir Uchaf chapel they include Golden Grove and another one in Llanasa, Maenan Hall near Llanrwst, Bryngwyn Mawr in Tremeirchion, and one in Bodelwyddan. We are in the process of identifying other large houses in our area which date from this period, and this year hope to 'discover' more of these special floors, PERHAPS WITH YOUR HELP. It would be interesting if, through house histories, we are eventually able to demonstrate connections between such houses and the numerous men of influence and learning from north Wales who were bringing new ideas into our area. We would very much like to know whether any readers know of such floors elsewhere in north Wales. (Unfortunately Peter Smith in his comprehensive *Houses of the Welsh Countryside*, 1975, makes no comment on floors or paving.)

Irene Brightmer, GDd Cymru (brightmer@btinternet.com)

Irene Brightmer, NE Wales (brightmer@btinternet.com)

CAPEL GWYDYR UCHAF (1673) ger Llanrwst, Conwy

Llun o'r llawr tua'r gorllewin o risiau'r allor. Sylwch fod tri math o bafin i'w gweld yn y ffoto, gyda'r steil mwyaf arbennig yn y pen cysegredig.

Mae'r Capel wedi ei gyflwyno i'r Drindod Sanctaidd. Mae'r Capel yn enwog am ei nenfwd paentiedig sydd hefyd mewn tri rhan er mwyn cynrychioli'r Drindod. Ydy'r llawr yn symbol arall o'r Drindod?



GWYDIR UCHAF CHAPEL (1673) near Llanrwst, Conwy

View of floor looking west from the altar steps. Note that there are three styles of paving visible in the photo, with the most special style at the sacred end.

The Chapel is dedicated to the Holy Trinity. The chapel is famous for its painted ceiling which is also in three parts to represent the Trinity. Is the floor another symbol of the Trinity?



Woodtiger Fund



MARC FITCH FUND



GRŴP DARGANFOD HEN DAI CYMREIG DISCOVERING OLD WELSH HOUSES GROUP

Dathlu Treftadaeth Cymru drwy astudio tai traddodiadol a bywydau'r bobl fu'n byw ynddynt.

CYLCHLYTHYR 23

Rhagfyr 2017

EIN GWEFAN <http://discoveringoldwelshhouses.co.uk> yw prif sianel gyfathrebu'r Grŵp – defnyddiwch hi i weld mwy o fanylion am y digwyddiadau diweddar a'r rhai sydd ar ddod, ac i edrych ar ein llyfrgell sy'n cynyddu'n gyson ac ar nodweddion eraill.

O'R GADAIR:

annedd bond yn gymorth i gefnogi'r 'arglwydd' lleol. Yr arglwyddi yn y cyfnod hwn oedd Barwniaid Edeirnion. Deilliai'r barwniaid hyn o dri mab Owain Brogynton [fl 1160-1186], Gruffydd, Iorwerth a Bleddyn. Mae ganddynt gysylltiad clir â Faerdref. Mae'n ymddangos fod llawer o hanes i'r dreflan hon, ac mae'n gofyn am astudiaeth gynhwysfawr.

Fel y disgwyliad, o gofio pwysigrwydd y faerdref, fe geir nifer o dai pwysig yn y dreflan, rhai ohonynt yn cael eu crybwyll mewn dogfennau hanesyddol cenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys Cryniarth, Plas Faerdref a Hendwr; ond drwy ymchwilio pen-bwrdd cyflym, ceir digon o gyfeiriadau o'r 15fed, 16fed, 17fe a'r 18fed ganrif at dai sylweddol eraill yn Faerdref, ac yn ddiweddar cafodd dau dŷ arall eu darganfod, un, Llanerch, wedi ei ddendroddyddio yn llwyddiannus i 1501/2; a'r llall, Hendre, o fewn tafliad carreg, yn aros am gael ei ddyddio.



Hendre © Janice Dale

Ond yn fwy arwyddocaol, yn fy thyb i, yw'r ffaith fod gan Hendwr a Llanerch ysguboriau ffrâm nenfforch gwell na'r cyffredin; felly a yw hyn yn cefnogi'r theori mai Faerdref oedd fferm y faenor?



Ysgubor 4 bae Hendwr / Hendwr 4-bay barn (cc-by-sa/2.0 © Eirian Evans, geograph.org.uk/p/140401)

Does dim gofod yma i fanylu ar hanes Hendwr, ond mae iddo stori ddiddorol iawn.

Fel y soniwyd yn barod, ceir cysylltiad clir rhwng Hendwr â'r

maerdref was a bond settlement providing support for the local 'lord'. The lords of this time were the Barons of Edeyrnion. These barons originated from the three sons of Owain Brogynton [fl 1160-1186], Gruffydd, Iorwerth and Bleddyn. They have clear links to Faerdref. It seems there is a lot of history to this township, and it deserves an in-depth study.

As would be expected, bearing in mind the importance of the maerdref, there are a number of important houses to be found in the township, some of them mentioned in national historical documents, including Cryniarth, Plas Faerdref and Hendwr; but doing a quick bit of desk-top research there are plenty of 15th, 16th, 17th and 18th century references to other substantial houses in Faerdref, and recently another two houses have been found, one, Llanerch, successfully being dendro-dated to 1501/2; the other, Hendre, within a stone's throw, is awaiting dating.



Llanerch © Janice Dale

But significant, I think, is the fact that both Hendwr and Llanerch have bigger than average cruck-framed barns: so does this support the theory that Faerdref was the 'home farm'?



Ysgubor Llanerch / Llanerch Barn © Janice Dale

There isn't room here to go into much detail on the history of Hendwr, but it does have a very interesting tale associated with it.

As already said, there is a clear line at Hendwr to the Barons,

Barwniaid, ac un disgynnydd o'i fath, Giwn Lloyd (1699-1774), yn ennyn rhywfaint o ddi-ddordeb.

Dim ond 8 oed oedd Giwn pan fu farw ei dad, a'i adael yn etifedd cyfoethog gydag ystâd sylweddol. Ond roedd Llundain yn denu ac yno fe briododd farforwyn o Dafarn To Gwellt yn Stryd San Jâms, o'r enw Elizabeth Taylor. O fewn blwyddyn fe anwyd merch iddynt, hefyd o'r enw Elizabeth, ond yn anffodus bu farw'r fam yn fuan a chan nad oedd Giwn am gael ei glymu i fagu plentyn, rhoddwyd Elizabeth allan i'w maethu. Ymhen amser, dychwelodd Giwn gartref a phriodi eto, y tro hwn â Sarah Hill o Hawkstone, Swydd Amwythig. Ni chafwyd plant o'r briodas hon a phan fu farw Giwn yn 1774 ni adawodd ewyllys. Ond fe roedd wedi datgan ei ddymuniadau, sef mai ei weddw oedd i elwa gyntaf o'i stad ac yna ei ddwy chwaer, er y bu'n rhaid iddynt werthu rhannau o'r stad i setlo amrywiol ddyledion. Ar farwolaeth y chwaer olaf, roedd y stad i'w gadael i berthnasau yng Ngwerclas, ond cyn y gallai hyn ddigwydd, ymddangosodd Jonathan a Robert Passingham yn mynnu eu bod yn feibion i Elizabeth, merch Giwn. Arweiniodd hyn at 27 blwyddyn o achosion llys, ac er dyfarniad y llys fod y briodas wreiddiol yn un ffug mewn Cofrestr Fleet (roedd priodasau afreolaidd a chudd yn digwydd o fewn ac o amgylch carchar Fleet hyd at 1754), yn y pen draw fe lwyddodd y brodyr Passingham, ond bu'r broses yn ddigon i ddymchwel yn ariannol deulu Gwerclas.

Yn dilyn gyrfa yn y fyddin, fe briododd Jonathan Passingham a symud i Gernyw, tra treuliodd Robert, ar ôl ei fywyd milwrol, amser yn Nhyfos, Llandrillo ac yn Heston o ble y tarddodd ei deulu. Fe briododd yn 1795, ond bu farw ei wraig ar ôl saith mlynedd, a threuliodd Robert, fel Is-gymrol Amddiffynwyr Swydd Gaer, lawer o'i amser yng Nghaer, lle bu'n rhaid iddo ymrafael mewn achos llys arall, y tro hwn yn cael ei gyhuddo o ymwneud â chynllwyn i dwyllo rhyw George Forrester, a rhedeg i ffwrdd gyda'i wraig, ac o ganlyniad i hyn, fe'i carcharwyd yng Ngharchar Newgate.

Rhwng popeth, onid oedd Faerdref yn lle eithaf diddorol?

Janice Dale, Sir Ddinbych

and one such descendant, Giwn Lloyd (1699-1774) is of some interest.

Giwn was just 8 years old when his father died, leaving him a wealthy man with a substantial estate. The lure of London called, and it was there that he married a barmaid of the Thatched Tavern in St James Street, by the name of Elizabeth Taylor. Within a year a daughter was born, also named Elizabeth, but unfortunately the mother soon died, and Giwn not wanting to be saddled with a child, the young Elizabeth was fostered out. Giwn eventually returned home and married a second time, to Sarah Hill of Hawkstone, Shropshire. There were no children from this marriage, and when Giwn died in 1774 he did not leave a will. He had, however, made his wishes known, and first his widow and then his two sisters had the benefit of his estate, despite the sisters having to sell parts to settle various debts. On the death of the last sister, the estate was to be left to relations at Gwerclas, however before this could happen, Jonathan and Robert Passingham turned up claiming to be the sons of Elizabeth the daughter of Giwn. This led to 27 years of court cases, and despite the court finding that the original marriage was a forgery in a 'Fleet Register' (irregular and clandestine marriages took place in and around the Fleet prison until 1754), the Passingham brothers eventually won, but the process financially ruined the Gwerclas family.

Jonathan Passingham, following an army career, married and moved to Cornwall, whilst Robert after his military life spent time at Tyfos, Llandrillo and Heston where his family originated from. He married in 1795, but his wife died after seven years, and Robert, as a Lieutenant Colonel of the Cheshire Fencibles, spent a lot of time in Chester, where he became embroiled in another court case, this time accused of entering a conspiracy to defraud one George Forrester, and making off with his wife, for which he was imprisoned in Newgate Prison.

So all in all, Faerdref is rather an interesting place!

Janice Dale, Denbighshire



MARC FITCH FUND



GRŴP DARGANFOD HEN DAI CYMREIG DISCOVERING OLD WELSH HOUSES GROUP

Dathlu Treftadaeth Cymru drwy astudio tai traddodiadol a bywydau'r bobl fu'n byw ynddynt.

CYLCHLYTHYR 21

Mehefin 2017

EIN GWEFAN <http://discoveringoldwelshhouses.co.uk> yw prif sianel gyfathrebu'r Grŵp – defnyddiwch hi i weld mwy o fanylion am y digwyddiadau diweddar a'r rhai sydd ar ddod, ac i edrych ar ein llyfrgell sy'n cynyddu'n gyson ac ar nodweddion eraill.

NEWYDDION DIWEDDARAF

Gydol y gwanwyn buom yn brysur yn cwblhau adroddiadau'r flwyddyn flaenorol a'n ceisiadau am grantiau ar gyfer 2017-18. Rhoddwyd sawl sgwrs ac mae'r sgysiau hyn yn arwain at newyddion a gwahoddiadau i hen dai diddorol. Yn ddiweddar, ymwelwyd â thŷ neuadd nenfforch o ffrâm goed nas cofnodwyd, ac rydym yn edrych ymlaen at ei astudio. A fedrwyd chi ein helpu drwy ddweud wrthym am dai gwirioneddol hen yn eich hardal?



Dolbelydr

Mae ail flwyddyn **PROSIECT G Ddn CYMRU** bellach ar droed ac yn denu cryn ddiddordeb trigolion lleol a pherchenogion tai Siroedd Ddinbych a'r Fflint: ac rydym bob amser yn chwilio am gynorthwywyr ychwanegol o'r ardal. Mae amrywiol fentrau yn yr arfaeth a bydd y manylion llawn yn cael eu dosbarthu yn hwyrach yn y flwyddyn.

GOLYGYDD Y CYLCHLYTHYR: Bydd ein golygydd presennol yn ymddeol yn fuan ac rydym yn chwilio am rhywun i lenwi'r swydd bwysig hon. Os ydych â diddordeb neu yn gallu awgrymu rhywun, cysylltwch â 01766 890550 am wybodaeth bellach.

GRANTIAU: Rydym yn cydnabod yn ddiolchgar grantiau

Celebrating Welsh Heritage through the study of traditional houses and the lives of the people who lived in them.

NEWSLETTER 21

June 2017

OUR WEBSITE <http://discoveringoldwelshhouses.co.uk> is the Group's main channel of communication – please visit it to see details of recent and forthcoming events and to look at our growing library and other features.

NEWS UPDATE

Over the spring we have been busy completing the previous year's reports and applying for grants for 2017-18. Many more talks have been given; these often result in news about and invitations to interesting old houses. We have recently visited a previously unrecorded timber-framed cruck hall-house and look forward to studying it. Can you help by telling us of really old houses in your area?



Offer coginio / Implements of cookery. Gweler tud.4 / See p4.

The **N E WALES PROJECT** year 2 is now underway with much interest shown from local people and house owners in Denbighshire and Flintshire: we are always looking for additional helpers from the area. Various initiatives are in the pipeline and full details will be circulated later in the year.

NEWSLETTER EDITOR: Our current editor will soon be retiring and we are looking for someone to take over this important role. If you are interested or can suggest someone, please contact 01766 890550 for further information.

GRANTS: We gratefully acknowledge new grants from the



newydd o Gronfa Marc Fitch, Cymdeithas Hynafiaethwyr Llundain, CBA Cymru a'r Grŵp Pensaernïaeth Frodorol, ac rydym yn aros am ganlyniadau ceisiadau eraill. Rydym hefyd yn ddiolchgar am grant Parc Cenedlaethol Eryri tuag at y Cylchlythyr.

OS YDYCH Â DIDDORDEB MEWN HEN DAI ond ddim eto yn aelod, pam na ystyriwch ymuno a'r Grŵp? Ysgrifennydd Aelodaeth yw Ms Zoë Henderson 01824 704404 zoehenderson123@btinternet.com. Am wybodaeth bellach cysylltwch â Margaret Dunn, yr Ysgrifenyddes secretary@discoveringgoldwelshhouses.co.uk 01766 890550.

DIGWYDDIADAU GRŴP

Gwener 23 Meh yn y Stablau, Plas Tan-y-bwlch, Maentwrog. 2.00yp CCB (AGM); 3.00yp Y **Ddarlith Gyhoeddus Flynyddol** gan Dr Eurwyn Wiliam MA, PhD, FSA, cadeirydd CBHC: 'Tri chawr: Iorwerth Peate, Cyril Fox a Peter Smith, ac astudiaeth o bensaernïaeth frodorol yng Nghymru' (yn Saesneg). Lluniaeth ac arddangosfeydd. Does dim angen archebu. Defnyddiwch faes parcio'r ardd isaf. **Sul 9 Gorff** Sêl Cist Car yn y bore ar faes awyr Mona, Ynys Môn. Gall pob cangen ddod ag eitemau i'w gwerthu i gynyddu cronfeydd y Grwpiau. Cysylltwch â Richard am fanylion: 01248 750752. **Sad 22 Gorff** hanner dydd-4yp Teithiau tywysedig ym Mhlas Penmynydd, Llangefni LL77 7SH. Rhan o'r Wyl Archeoleg. Gwerthfawrogir yn fawr unrhyw fath o gymorth. Cost £5 y pen. Dowch â phicnic. Manylion llawn i ddod ac oddi wrth 01766 890550. Dim angen archebu. NGR SH 496753. Dilynwch fford B5420 Porthaethwy - Llangefni; a ½ milltir i'r dwyrain o Llangefni, ger gwaelod allt Ceint, trowch ar hyd trac fferm gwastad 600 llath ar gyfer gollwng teithwyr a pharcio i'r anabl. Y prif faes parcio yn y cae oddi ar y ffordd gyferbyn â thrac fferm - gweler baner.



Llwyn y Cynfal

Ymweliad grŵp â Stokesay: Yn anffodus, profwyd bod yr archebion ar gyfer Trip Dyddiol Grŵp a gynlluniwyd ar gyfer 22 Mai i Gastell Stokesay a Fferm Acton Scott yn rhy isel i gyfiawnhau'r costau ac felly fe ganslwyd y daith. Fodd bynnag, gall y bydd aelodau'r flwyddyn nesaf yn awyddus i ymuno â ni ar Daith Diwrnod neu Daith Astudio arall dros 2 neu 3 diwrnod, a buasai'n dda o beth cael syniad o rai o'r manau ymweld a fuasai'n denu'r aelodau. Felly, gofynnwn i'r holl aelodau feddwl am hyn ac anfon eu syniadau at gynrychiolwyr y Canghennau yn y cyfarfod nesaf, erbyn 30 Mehefin.

Marc Fitch Fund, the Society of Antiquaries of London, the CBA Wales and the Vernacular Architecture Group; we await the results of other applications. We are also grateful for a grant from the Snowdonia National Park towards the Newsletter.

IF YOU ARE INTERESTED IN OLD HOUSES and are not already a member, why not consider joining the Group? The Membership Secretary is Ms Zoë Henderson zoehenderson123@btinternet.com 01824 704404. For further information contact Margaret Dunn, Secretary secretary@discoveringgoldwelshhouses.co.uk 01766 890550.

GROUP EVENTS

Fri 23rd June at Y Stablau, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog LL41 3YU: 2.00 pm **AGM**; 3.00 pm the **Annual Public Lecture** 'Three giants: Iorwerth Peate, Cyril Fox and Peter Smith, and the study of vernacular architecture in Wales' will be given (in English) by Dr Eurwyn Wiliam MA, PhD, FSA, RCAHMW chair. Refreshments & displays. No booking necessary. Use lower garden car park. **Sun 9th July** Morning Car Boot Sale at Mona airfield, Anglesey. Each branch might bring items to sell to raise Group funds. Contact Richard for details: 01248 750752. **Sat 22nd July** noon-4pm Guided tours at Plas Penmynydd, Llangefni LL77 7SH. Part of the Festival of Archaeology. Any offers of help would be greatly appreciated. Cost £5 per head. Bring a picnic. Full details later & from 01766 890550. No booking necessary. NGR SH 496753. Follow B5420 Menai Bridge - Llangefni road; ½ mile east of Llangefni, near bottom of hill at Ceint, turn along level 600 yd farm track to end for drop off & disabled parking. Main parking in field off road opposite farm track - see flag.



NE Wales

Group visit to Stokesay: Unfortunately, bookings for the Group Day Trip planned for May 22nd to Stokesay Castle and Acton Scott Farm proved too low to justify the costs involved and the day was therefore cancelled. However, next year members may be interested in joining us on another Day Tour or Study Tour over 2 or 3 days, and it would be very helpful to have some idea of the venues that people would find most attractive. We would therefore ask all members to have a think about this and to pass on their ideas to their Branch reps at their next meeting, by 30th June, please.

DIGWYDDIADAU CANGEN: archebwch â chysylltydd cangen, fel arfer@ £2.

CANGEN MÔN- ARFON

Cyswllt: Peter Masters: datinggoldwelshhouses@gmail.com 01758 750322. Anfonwch unrhyw syniadau ar gyfer cyfarfodydd at Peter.

CANGEN CONWY

Cyswllt: Tony Scharer: tonyscharer@gmail.com 01745 813027. **Mawrth 20 Mehefin** gyda Martin Cherry: sgwrs ddarluniadol ar bensaerniaeth hen dai yng Ngogledd Cymru. 2yp yn nhŷ Ann ym Mae Penrhyn. **Mawrth 11 Gorffennaf** – Taith dan arweiniad o amgylch Dinbych gyda Tony Scharer. Cyfarfod am 2yp ger Tŵr Eglwys Sant Ilar ger y castell yn Ninbych. Ceir maes parcio am ddim gerllaw. Yn para rhyw 2 awr, a'r pellter tua 1 filltir. **Awst** Dim cyfarfod.

CANGEN SIR DDINBYCH

Cyswllt: Janice Dale: jadale22@hotmail.co.uk 01490 440427 **Gwener 16 Mehefin** yn nhŷ aelod (manyion gan Janice) – nifer yn hollol gyfyngedig i 10. Dim cyfarfodydd yng Ngorffennaf nac Awst. **Iau 7 Medi** yn nhŷ aelod. **Iau 9 Tachwedd** Hostel Ieuenctid Cynwyd (i ddo).

CANGEN MEIRIONNYDD

Cyswllt: John Townsend: john@thetownsends.org.uk 01341 430262. Digwyddiad **Mehefin** eto i'w gadarnhau. Gwiriwch y dudalen 'Ymweliadau' ar wefan GDHDC i gael y wybodaeth ddiweddaraf. **Sul 23 Gorffennaf** am 2.30yp: digwyddiad Cymdeithasol yr Haf Cangen Meirionnydd ym Modwylan, Llwyngwrl. Trefnir cludiant o faes parcio Llwyngwrl. Cysylltwch â John Townsend am wybodaeth bellach ac ar gyfer archebu. **Awst** Dim cyfarfod

CANGEN GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU

Rhaid archebu ymweliadau yn gynnar gyda M Dunn (01766 890550 brynbedd1@gmail.com). **Mawrth 13 Mehefin:** 2.00 yp ymweld â thŷ Wally a Margaret Barr yng Ngwesbyr ger Llanasa (nifer 12). **Iau 13 Gorffennaf:** 2.00 yp ymweliad i Graig y Castell ac adfeilion castell Dyserth (nifer 20). Dim cyfarfod yn Awst. **Mawrth 19 Medi:** 2.00yp ymweliad â Cholomendy, Afon-wen, Yr Wyddgrug (nifer 12).

NODYN ATGOFFA: Mae'r holl dai a grybwyllir yn y cylchlythyr hwn ac/neu sy'n gysylltiedig â DHDC yn eiddo preifat ac **nid ydynt ar agor** i'r cyhoedd.

GWEFAN

Yn y CCB yn 2015 cytunwyd i ailenwi Grŵp Dyddio Hen Dai Cymreig yn Grŵp 'Darganfod Hen Dai Cymreig'. Roedd hyn i ddiwydd erbyn Ionawr 2016. Rhan bwysig o'r ailfrandio hwn oedd diweddarau ac adolygu'r wefan, ein ffenestr i'r byd. Y cam cyntaf oedd ail-labelu'r holl dudalennau a'r dolennau. Dilynwyd hyn gan gofrestru enw'r etifeddiaeth www.discoveringgoldwelshhouses.co.uk, ac ailgyfeiriwyd yr holl dramwyo i 'Darganfod' i'r safle a ail-labelwyd yn 'Dyddio'. Wedi'r holl dreialon a phroffion, uwchraddiwyd y gofod Gweinyddu, ac ar 1 Ebrill 2017 gweithredodd y safle 'Darganfod' ohono'i hun. Er mwyn tynnu sylw at y newid hwn a'i amlygu, gwnaethpwyd hefyd adolygiad cyflawn o ddiwyg y safle. Bellach, gellir cael gafael yn uniongyrchol ar yr adroddiadau sydd yn y Llyfrgell, drwy ddefnyddio'r Mynegai yn ogystal â'r Silff Lyfrau ac felly hwyluso'r chwilio. Diweddarwyd y wefan gan gynnwys rhaglenni ymweliadau

BRANCH EVENTS: book with branch contacts, usually @ £2.

ANGLESEY-CAERNARFONSHIRE BRANCH

Rep: Peter Masters: datinggoldwelshhouses@gmail.com 01758 750322. Please send any ideas for meetings to Peter.

CONWY BRANCH

Contact: Tony Scharer: tonyscharer@gmail.com 01745 813027. **Tues 20th June** with Martin Cherry: an illustrated talk on the architecture of old houses in North Wales. 2pm at Ann's house in Penrhyn Bay. **Tues 11th July** Guided walk around Denbigh with Tony Scharer. Meet 2pm at St Hilary's Church Tower near the castle in Denbigh. There is a free car-park close by. Duration about 2 hours, distance about 1 mile. **Aug** No meeting.

DENBIGHSHIRE BRANCH

Contact: Janice Dale: jadale22@hotmail.co.uk 01490 440427 **Fri 16th June** at a member's house (details from Janice) – numbers strictly limited to 10. No meetings in July or August. **Thurs 7th Sept** at a member's house. **Thurs 5th Oct** at a member's house. **Thurs 9th Nov** Cynwyd Youth Hostel (tbc).

MERIONETH BRANCH

Contact: John Townsend: john@thetownsends.org.uk 01341 430262. The **June** event has not yet been confirmed. Please check the 'Visits' page on DOWHG website for up-to-date information. **Sun 23rd July** at 2.30pm: Merioneth Branch Summer Social event at Bodwylan, Llwyngwrl. Transport will be arranged from Llwyngwrl carpark. Please contact John Townsend for further information and to book. **Aug** No meeting.

NORTH EAST WALES BRANCH

Essential to book visits early with M Dunn (01766 890550 brynbedd1@gmail.com). **Tues 13th June:** 2.00 pm visit to Wally & Margaret Barr's home in Gwespyr near Llanasa (max 12). **Thurs 13th July:** 2.00 pm visit to Craig y Castell and castle remains, Dyserth (max 20). No meeting in August. **Tues 19th Sept:** 2.00pm visit to Colomendy, Afonwen, Mold (max 12).

REMINDER: all the houses mentioned in this Newsletter and/or linked with DOWHG are private property and are **NOT** open to the public.

WEBSITE

At the 2015 AGM it was agreed to rename the Dating Old Welsh Houses Group 'Discovering Old Welsh Houses'. This was to be achieved by Jan 2016. An important part of the re-branding has been updating and revising the website, our window to the world. The initial process was to re-label all of the pages and links. This was followed by the registering of the domain name www.discoveringgoldwelshhouses.co.uk, and all traffic to 'Discovering' was redirected to the relabelled 'Dating' site. After trials and testing the Server space was upgraded and on 1st April 2017 The 'Discovering' site went live on its own account. In order to make this change noteworthy and stand out, a complete revision of the site's appearance was also implemented. Reports in the Library can now be accessed directly from their Index as well as the Bookshelf, making searches easier. The website has been updated with the respective Branch visits programmes

Canghennau ac ychwanegwyd dalen newydd at y dyddiadur ymweliadau ar gyfer Cangen newydd Gogledd Ddwyrain Cymru.

O Fai 1 2017 ymlaen mae'r holl weithgarwch ar gyfer Dyddio Hen Dai Cymreig wedi cael ei ailgyfeirio at wefan 'Darganfod'. Mae hyn yn cwblhau y broses o ailnewi ac ailbrosesu mewn pryd ar gyfer CCB Mehefin 2017.

Peter Masters

LLAWER O DDIOLCH i Gangen Conwy am eu cyfraniad at yr argraffiad hwn o'r cylchlythyr.

FFRAMIO COED

Ar 28 Chwefror, cafodd aelodau Cangen Conwy sgwrs hynod o ddiddorol ar 'Fframio Coed' gan Tony Scharer. Eglurodd y gwahaniaethau rhwng fframiau nenffyrch, fframiau blwch a fframiau pyst a chylplau. Dangoswyd lluniau, diagramau ac amrywiaeth o offer a ddefnyddid i ffurfio'r coed a'u huniadau. Dilynwyd hyn gan sesiwn ymarferol pan adeiladwyd ffrâm fechan o ran maint a oedd yn cynnwys y tri steil.



Ffrâm goed / Timber frame

RHESTRAU

Cyn 12 Ionawr 1858, roedd profi Ewyllysiau a chaniatáu Llythyrâu Gweinyddu yng Nghymru a Lloegr yn gyfrifoldeb y llysoedd eglwysig. Roedd nifer o'r llysoedd hyn hefyd am gael rhestrau wedi eu ffeilio. Golygai hyn restr o nwyddau personol a symudol yr ymadawedig. Nid oedd yn cynnwys eiddo tiriog gan y trafodid hyn fel arfer gan yr Ymddiriedolwyr. Lluniwyd y rhestrau hyn gan brisiwyr a oedd naill ai yn berthnasau neu yn bobl leol.

Roedd y rhestrau hyn yn ein galluogi i ail-greu bywyd beunyddiol y bobl yr oedd y nwyddau yn eiddo iddynt. Weithiau fe'u dynodwyd ar sail stafell i stafell. Maent yn rhestru'r dodrefn: mae'r rhain yn rhoi cipolwg i ni o dechnoleg y cyfnod drwy offer hwsmonaeth a chelfi tŷ a theulu; maent yn rhoi gwybodaeth am arferion ffermio – yr anifeiliaid a gedwid, y cnydau a dyfid a'r cynnyrch a gynhyrchwyd megis menyh, caws a chwrw.

Mae'r geiriau a ddefnyddid yn aml yn amrywio yn eu sillafiad a rhaid eu deall yn ôl eu cyswllt gan fod geiriau yn amrywio

and a new page has been added to the visits diary for the new North East Wales Branch.

As from 1st May 2017 all traffic to Dating Old Welsh Houses has been re-directed to the 'Discovering' website. This completes the renaming and upgrading process in time for the June 2017 AGM.

Peter Masters

MANY THANKS to the Conwy Branch for their contributions to this issue of the newsletter.

TIMBER FRAMING

On 28th February, the Conwy Branch listened to an extremely interesting talk about 'Timber Framing' by Tony Scharer. He explained the differences between cruck frames, box-frames and post and truss frames. We were shown pictures, diagrams and a variety of tools which would have been used to shape the timbers and their joints. This was followed by a practical session during which we constructed a reduced size frame which included all three styles.



Sgwrs am waith y Grŵp i WI Cilcain / A talk about the Group's work to Cilcain WI

INVENTORIES

Before 12th January 1858, the proving of Wills and the granting of Letters of Administration in England and Wales was the responsibility of ecclesiastical courts. Many of these courts also required an inventory to be filed. This was a list of the deceased's personal and moveable goods. It did not include real estate as this was usually dealt with by Trustees. The Inventory was compiled by appraisers who were either relatives or local people.

These inventories enable us to reconstruct the everyday lives of the people who owned the goods. Sometimes they were itemised on a room-by-room basis. They list the furniture; they give an insight into the technology of the times by way of the implements of husbandry and household gadgets; they provide information about farming practices – the animals kept, crops grown and products made such as butter, cheese, beer and ale.

The words used often vary in spelling and must be understood in the light of their context because words do

yn eu hystyron mewn gwahanol wledydd. Ysgrifennwyd yr oll o'r rhestrau hyn yn wreiddiol mewn Saesneg, a hyd yn oed pe buasai ganddynt fersiynau Cymraeg y cyfnod, mae rhai o'r rhain bellach wedi mynd ar goll. Mae rhai rhestrau yn neilltuoel o ran manylion. Beth am ganolbwyntio ar y gegin (*kitchen, kichin, kighing*).

Buasai'r rhan fwyaf o'r coginio yn digwydd ar yr aelwyd agored, a buasai rhedeg cegin yn gofyn am ystod o sgiliau. Roedd hyn yn cynnwys rheoli'r tân i gynnal gwahanol fathau o wres; symud pentyrrau o golsion o amgylch yr aelwyd i roi nifer o danau gwahanol; gosod gradell dros un pentwr o'r glo ar gyfer rhostio; padell ar drybedd dros bentwr arall i'w ddefnyddio ar gyfer ffrio; a glo wedi ei bentyrru o dan 'degell pobi' gyda glo ar ben ei gaead ar gyfer pobi cacennau neu basteiod (gweler y llun ar dudalen 1: o'r Chwith: tegell pobi, sgiled, andirons gyda thrybell, tegell pobi a gridyll/maen (ar y dde uchaf)).



Hastener neu ffwrn agored / A hastener or dutch oven
Roedd breichiau haearn neu graeniau yn siglo, ac yn ymwithio allan o'r garreg neu'r fricsen ar gyfer dal potiau enfawr. Drwy godi neu ostwng y potiau, neu eu symud tuag at i mewn neu at allan, fe ellid rheoli'r tymheredd. Ar gyfer goleuo a chynnal y tân, ar gael byddai blychau tân, megyn a gefel. Mae'r eitemau a ddefnyddid ar gyfer coginio, ac sy'n cael eu crybwyll yn aml mewn rhestrau yn cynnwys: cadwyni a bachau ar gyfer hongian pot uwchben tân (*rackans*); bachau (*trammells*); cigweiniau; pentanau haearn (*andirons*); trybedau; haearn ar draws tân i gynnal potiau (*brandreds*); padelli metel gyda thair coes cwta a handlen hir ar gyfer ffrio (*sgiledi*); ffyrc hir ar gyfer trafod cig (*ffyrc bïff*); desglau ar gyfer cadw bwyd yn gynnes (*desglau chafing*); stand neu adlewyrchyd ar gyfer canolbwyntio gwres y tân ar ddarn o gig wrth ei goginio (*hasteners neu ffyrnau agored*); *gradelli/meini crasu*.

Roedd y celfi eraill a ddefnyddid ar gyfer paratoi bwyd, gweini a storio bwyd yn cynnwys eitemau megis: jariau pridd, neu hanner barilau/tybiau, a ddefnyddid yn y llaethdy (*stunds/stunts*); cwpanau yfed (*noggins*); platiau a desglau piwtar; platiau mawr ar gyfer gweini cig (*chargers*); platiau tenau, gwastad o bren neu biwtar ar gyfer bwyta'r cig (*trenchers*); potiau pres; costreli ac amrywiaeth o lestri pren;

have different meanings in different contexts. All of these Inventories were originally written in English, and even if the words had Welsh equivalents at the time, some of those have now been lost. Some inventories are outstanding in detail. Let's focus just on the kitchen (*kichin, kighing*).

Most of the cooking would have been done on an open hearth, and running a kitchen would have required a range of skills. It included managing the fire to produce different types of heat; moving piles of embers around the hearth to provide several separate fires; setting a gridiron over one pile of coals to be used for broiling; a pan on a trivet over another pile to be used for frying; and coals piled under a 'bake kettle' with coals on top of its lid to bake cakes or pies (see the picture on p1: (from L) bake kettle, skillet, andirons with trivet, bake kettle and griddle/girdle (top right)).



'Tegell pobi' (heb ei gaead) yn cynnwys pastai (ar y dde) / A 'bake kettle' containing a pie (with its lid removed) (R)
Swinging iron arms or cranes, which protruded from the surrounding stone or brick, held massive pots. By raising or lowering the pots, or moving them inwards or outwards, the temperature could be controlled. For lighting and managing the fire, there would have been tinder boxes, bellows and tongs. Items used for cooking, and often mentioned in inventories, include: *rackans* (chains or hooks for suspending a pot over a fire); *trammells* (hooks); *spits*; *andirons* (firedogs); *trivets*; *brandreds* (for standing across a fire to support pots); *skillets* (metal pans with three short legs and a long handle used for frying); *beef forks* (long forks for handling meat); *chafing dishes* (dishes used to keep food warm); *hasteners* or *dutch ovens* (stands or reflectors used for concentrating the heat of the fire on a joint of meat during cooking); *griddles/girdles* and *bake stones*.

Other equipment used for food preparation, serving and the storing of food included items such as: *stunds/stunts* (earthenware jars, or half barrels/tubs, used in the dairy); *noggins* (drinking-cups); pewter plates and dishes; *chargers* (large platters for serving meat); *trenchers* (thin, flat wooden or pewter platters from which food was eaten); brass pots; flagons and a variety of wooden vessels;

powlliau gyda chaeadau a handleni ffurf clust ar gyfer uwd, cawl, potes ayb. (*pottingers/porringers*); potiau metal bach ar gyfer berwi, gyda handlen a thair coes (*posnets*); cynhwysyddion neu flychau ar gyfer halen neu gonfennau eraill (*salts*); hidlwyr pren gyda gwaelod llin ar gyfer hidlo llaeth (*sile dishes*); cwpan ar gyfer diod o laeth poeth wedi ei geulo a chwrrw neu win a'i gymysgu â siwgr a sbeisys (*cypanau poset*); cwpanau ar gyfer pwdin hufen wedi ei chwipio â siwgr a sieri (*cwpanau/desglau silabwb*); jygiau saws fel arfer o fetel – ni ddefnyddid cwpanau tan y 18fed ganrif (*soseri/sawcers*); ystenu llaeth bach o bren (*piggins*); cafnau neu fareli ar gyfer bragu (*kives/keives*); noeau (ar gyfer tyllino bara); casgenni bychain ar gyfer hylifau neu fenyn (*ffircynau/ffyrkins*); casgenni ar gyfer gwin neu gwrw (*butts*); ar gyfer gwneud menyn (*corddwyr*).

pottingers/porringers (bowls with covers and ear-shaped handles for porridge, soup, pottage etc.); *posnets* (small metal pots for boiling, with a handle and three feet); *salts* (containers or boxes for salt or other condiments); *sile dishes* (wooden strainers with linen bottoms for straining milk); *posset cups* (for a hot milk drink curdled with ale or wine and mixed with sugar and spices); *syllabub/silaboob cups/dishes* (for a whipped cream dessert mixed with wine or sherry); *saucers/sawcers* (sauceboats usually made of metal – they were not used to hold cups until the 18th century); *piggins* (small wooden milk pails); *kives/keives* (vats or barrels for brewing); *kneading troughs* (for breadmaking); *firkins/ffyrkins* (small casks for liquids or butter); *butts* (casks for wine or ale); *churns/chyrns* (for making butter).



Noggin



Piggins



Firkin



Gall fod bwyd yn cael ei storio mewn cypyrddau/cobards/cupperds *livorie* (cypyrddau bychain at storio bwyd gyda drysau tyllog ar gyfer awyru) neu *polkes* (cypyrddau); a defnyddid *stillages* (stolion isel neu baledau) i godi eitemau oddi ar y llawr.

Posnet

Cwprwdd *livorie* / *Livorie cupboard*
Food may have been stored in *livory/livorie cupboards/cobards/cupperds* (small food storage cupboards with perforated doors for ventilation) or *polkes* (cupboards); and *stillages* (low stools or pallets) were used for raising items off the floor.

Gill Jones, Conwy

Gill Jones, Conwy

Council for
British Archaeology



PURCELL



Comisiwn Brenhinol
Henebion Cymru
Royal Commission on the Ancient
and Historical Monuments of Wales



MARC FITCH FUND

GRŴP DARGANFOD HEN DAI CYMREIG DISCOVERING OLD WELSH HOUSES GROUP

Dathlu Treftadaeth Cymru drwy astudio tai traddodiadol a bywydau'r bobl fu'n byw ynddynt.

CYLCHLYTHYR 20

Mawrth 2017

EIN GWEFAN <http://discoveringgoldwelshhouses.co.uk> yw prif sianel gyfathrebu'r Grŵp – defnyddiwch hi i weld mwy o fanylion am y digwyddiadau diweddar a'r rhai sydd ar ddod, ac i edrych ar ein llyfrgell sy'n cynyddu'n gyson ac ar nodweddion eraill.

O'R GADAIR:

Mae braidd yn hwyr i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i'n haelodau oll, ond rwyn wir gredu fod addewidion 2017 yn hynod gynhyrchiol o safbwynt ein Grŵp. Yn gyntaf oll, rhaid i mi groesawu'n gynnes iawn yr aelodau newydd niferus a gawsom eleni, yn arbennig y rhai yng ngogledd ddwyrain Cymru sy'n barod wedi cyfrannu'n gadarnhaol iawn i'n gwaith. Llawer o ddiolch hefyd, i Janice a Wally am arwain yr ymgyrch i ddarganfod tai addas i'w hastudio yn ein 'Dwyrain Pell' ni. Rydym wir angen darganfod rhywun i helpu Margaret gyda'r ceisiadau am grant – ffoniwch hi ar 01766 890550 os teimlwch y gellwch gynorthwyo. Dymuniadau da i bawb,

Richard Cuthbertson, Cadeirydd



Archifau Rhuthun / Ruthin Archives

NEWYDDION DIWEDDARAF

Anodd yw gorfod cofnodi marwolaeth dau o'n haelodau yn Rhagfyr 2016. Roedd y **Bn Malcolm Best**, Penmachno, yn berchen ar un o'r tai a ddendroddyddiwyd, ac a gofnodwyd

Celebrating Welsh Heritage through the study of traditional houses and the lives of the people who lived in them.

NEWSLETTER 20

March 2017

OUR WEBSITE <http://discoveringgoldwelshhouses.co.uk> is the Group's main channel of communication – please visit it to see details of recent and forthcoming events and to look at our growing library and other features.

FROM THE CHAIR:

It seems too late to say Happy New Year to all our members, but I do think 2017 promises to be very productive for our Group. First I must welcome very warmly the many new members we have this year, especially those in North East Wales who are already making a very positive contribution to our work. Many thanks too, to Janice and Wally for leading the push in finding suitable houses to study in our 'Far East'. We still badly need to find some one to help Margaret with grant applications: please ring her on 01766 890550 if you feel you could assist. Best wishes to all,

Richard Cuthbertson, Chairman



Stokesay: Ymweliad grŵp ym Mai 2017 / Group visit in May 2017

NEWS UPDATE

We are sorry to have to record the deaths of two of our members in December 2016. Mr **Malcom Best**, Penmachno, owned one of the dendro-dated houses, which was

yn bensaernïol a manylion ei hanes wedi eu cwblhau. Fe groesawodd sawl grŵp i weld ei gartref. Roedd teulu'r Bn **Struan James-Robertson** yn berchen ar ei dŷ yn Edern (hefyd wedi ei gofnodi'n fanwl) er pan y'i adeiladwyd, ac roedd yn ymddiddori'n fawr yng ngwaith y Grŵp.

PROSIECT GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU 2016-17. Aseswyd 32 o dai, a samplwyd saith gan arbenigwyr Labordy Dendrocronolegol Rhydychen yn Rhagfyr. Rhoddodd chwe tŷ ddyddiadau cwmpo coed yn ymestyn o 1503 hyd at 1638. Mae cofnodi pensaernïol yn digwydd i ddau dŷ a oedd gynt yn dai nenfforch. Ceir y manylion ar ein gwefan. Bydd ein gweithgareddau yn y dyfodol yn dibynnu ar symiau'r grantiau a gawn ar gyfer 2017-18. Bu'r tua 23 o sgysiau a gynhaliwyd ledled G Ddn Cymru yn fodd i hybu diddordeb sylweddol ac i nifer gynnig helpu. Sefydlwyd cangen newydd yn G Ddn Cymru o dan arweinyddiaeth Dr Wally a Mrs Margaret Barr ym Medi (magsbarr@yahoo.co.uk 01745 888622) ac mae ymchwil i hanes tai ar fin cychwyn. Yn barod treuliwyd diwrnod yn archifau Rhuthun yn ogystal ag ymweld â thŷ.



G Ddn Cymru / NE Wales ^ >

GRANTIAU Rydym yn cydnabod yn ddiolchgar y grantiau a dderbyniwyd tuag at y prosiect hwn gan gronfa Woodtiger, AOHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, Cronfa Marc Fitch a sefydliadau eraill. Gobeithiwn ehangu ymhellach y gweithgareddau hyn yn 2017-18. Rydym hefyd yn cydnabod yn ddiolchgar y grant tuag at Gylchlythyrau 2016 gan Barc Cenedlaethol Eryri.

OS YDYCH Â DIDDORDEB MEWN HEN DAI ond ddim eto yn aelod, pam na ystyriwch ymuno a'r Grŵp? Ysgrifennydd Aelodaeth yw Ms Zoë Henderson 01824 704404 zoehenderson123@btinternet.com. Am wybodaeth bellach cysylltwch â Margaret Dunn, yr Ysgrifenyddes secretary@discoveringgoldwelshhouses.co.uk 01766 890550.

DIGWYDDIADAU GRŴP

Ni chynhelir unrhyw ddigwyddiad Grŵp yn y Gwanwyn. Fodd bynnag, rydym yn cynllunio i drefnu ymweliadau Grŵp yn gynnar yn yr haf; ni chynhelir Taith Astudio 2017.

architecturally recorded and had a detailed house history completed. He welcomed several groups to see it. Mr **Struan James-Robertson's** family had owned his house in Edern (also fully documented) since it was built, and he took a great interest in the Group's work.

NORTH EAST WALES PROJECT 2016-17. 32 houses were assessed and seven were sampled by the Oxford Dendrochronology Laboratory specialists in December. Six houses gave tree-felling dates ranging from 1503 to 1638. Architectural recording is being undertaken for two former cruck houses. Details are on our website. Future activities will depend on the size of grants obtained for 2017-18. Around 23 talks have been given across NE Wales resulting in considerable interest and offers of help. A new NE Wales branch has been established under the leadership from September of Dr Wally and Mrs Margaret Barr (magsbarr@yahoo.co.uk 01745 888622) and house history research is now starting. An archive day in Ruthin and a house visit have already been held.



GRANTS We gratefully acknowledge grants towards this project from the Woodtiger Fund, the Clwydian Range and Dee Valley AONB, the Marc Fitch Fund and other organisations. We hope to develop these activities further in 2017-18. We also gratefully acknowledge a grant towards the 2016 Newsletters from the Snowdonia National Park.

IF YOU ARE INTERESTED IN OLD HOUSES and are not already a member, why not consider joining the Group? The Membership Secretary is Ms Zoë Henderson zoehenderson123@btinternet.com 01824 704404. For further information contact Margaret Dunn, Secretary secretary@discoveringgoldwelshhouses.co.uk 01766 890550.

GROUP EVENTS

There will NOT be any Group events in the Spring. We do however plan to organise Group visits in the early summer; there will not be a 2017 Study Tour.

TRIP DIWRNOD I GRŴP ar **Ddydd Llun 22 Mai, 2017** (ar gyfer aelodau a ffrindiau). Gwahoddir chi i ymuno â ni i ymweld â Fferm Weithredol Hanesyddol Acton Scott, yn yr Amwythig, a Chastell Stokesay, lle y bydd yr arbenigwr ar adeiladau hanesyddol, Duncan James, yn arwain y daith. Bydd coetsys yn codi teithwyr mewn sawl man yn cynnwys Bangor, Porthmadog, Dolgellau a Chonwy, Dinbych a Chorwen. Y gost gyfan fydd tua £40 y pen. Gobeithir y bydd yn ddiwrnod diddorol a difyr a chan fod y nifer yn gyfyngedig, gwell archebu'n fuan! Cysylltwch â Wally Barr 01745 888622, wallybarr@yahoo.co.uk.

Gwener 23 Mehefin yn y Stablau, Plas Tan-y-bwlch, Maentwrog. 2.00yp **CCB** (AGM); 3.00yp Y Ddarlith Gyhoeddus Flynyddol gan Dr Eurwyn Wiliam: 'Tri chawr: Iorwerth Peate, Cyril Fox a Peter Smith, ac astudiaeth o bensaerniaeth frodorol yng Nghymru'. Lluniaeth ac arddangosfeydd. Does dim angen archebu. Defnyddiwch faes parcio'r ardd isaf.

DIGWYDDIADAU CANGEN: archebwch â chysylltydd cangen, fel arfer @ £2.

CANGEN MÔN - ARFON

Cyswllt: Peter Masters: datingoldwelshhouses@gmail.com 01758 750322. **Iau 6 Ebrill** 2.15yp yn Liverpool House, Sarn Mellteyrn. Dim ond 207 o flynyddoedd oed yw'r tŷ ond mae iddo hanes diddorol (rhaid bwcio lle: nifer mwyaf yw 30).

CANGEN CONWY

Cyswllt: Tony Scharer: tonyscharer@gmail.com 01745 813027. **Iau 23 Mawrth** yn nhŷ Gill yn Llanddulas: Sut i strwythuro astudiaeth o Bentref – trafodaeth, 9.30-12. **Ebrill:** dim cyfarfod. **Mai:** ymweliad â thŷ; manylion eto i'w cwblhau. **Mawrth 20 Mehefin** yng nghwmni Martin Cherry: sgwrs ddarluniadol ar bensaerniaeth hen dai yng Ngogledd Cymru, am 2yp yn nhŷ Ann. **Mawrth 11 Gorffennaf** Taith dan arweiniad Tony Scharer o amgylch Dinbych. Ymgynnull am 2yp ger Tŵr Eglwys Sant Ilar, ger y castell yn Ninbych. Mae manau parcio am ddim gerllaw. Fe bery'r ymweliad rhyw 2 awr, a cherddir rhyw filltir. **Awst:** dim cyfarfod.

CANGEN SIR DDINBYCH

Cyswllt: Janice Dale: jadale22@hotmail.co.uk 01490 440427 **Gwener 17 Mawrth:** cyfarfod cyffredinol yn nhŷ aelod gerllaw Llandrillo, a hwyrach daith i dŷ yn y cyffiniau agos. **Gwen 21 Ebrill** Ymweld â Chomisiwn Henebion Cymru (RCAHMW) 11.00. Nifer mwyaf 12, ac felly mae'n rhaid archebu ymlaenllaw drwydda i. **Gwen 12 Mai** 2yp Ymweld â Dolbelydr, tŷ'r Landmark Trust ger Dinbych. Nifer Mwyaf 12, felly mae'n rhaid archebu drwydda i. **Mehefin** l'w gyhoeddi. Dim cyfarfodydd yng Ngorffennaf nac Awst.

CANGEN MEIRIONNYDD

Cyswllt: John Townsend: john@thetownsends.org.uk 01341 430262. Ar y Mercher cyntaf yn y mis rhwng 9.30yb a 12.30yp y mae Archifau Dolgellau ar agor i ddim ond aelodau GDHDC. Gwnewch ddefnydd o'r cyfleuster hwn gan adael John wybod. **Sad 18 Mawrth** 2yp: Cae'r March, Llanfachreth LL40 2DS, tŷ cynnar (1542) lloriog ar gynllun dwy uned gyda simdde ochrol. **Mawrth 11 Ebrill** 2yp. Ymweld â dwy eglwys: Santes Fair a Sant Egryn, Llanegryn (sgrin hynod, croglofft a bedyddfaen, o bosib yn Normanaidd); Sant Cadfan, Tywyn

GROUP DAY TRIP on **Monday 22nd May, 2017** (open to members and friends). You are invited to join us to visit the Acton Scott Historic Working Farm, Shropshire, and Stokesay Castle, where historic buildings expert Duncan James will lead our tour. Coaches will pick up passengers at a range of places including Bangor, Porthmadog, Dolgellau and Conwy, Denbigh and Corwen. Total cost around £40 per person. An interesting and entertaining day is expected and places are limited so please book early! Contact Wally Barr – 01745 888622, wallybarr@yahoo.co.uk.

Friday 23 June at Y Stablau, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog. 2.00 pm **AGM**; 3.00 pm Annual Public Lecture by Dr Eurwyn Wiliam: 'Three giants: Iorwerth Peate, Cyril Fox and Peter Smith, and the study of vernacular architecture in Wales'. Refreshments & displays. No booking necessary. Use lower garden car park.

BRANCH EVENTS: book with branch contacts, usually @ £2.

ANGLESEY-CAERNARFONSHIRE BRANCH

Rep: Peter Masters: datingoldwelshhouses@gmail.com 01758 750322. **Thurs 6th April** 2.15 at Liverpool House, Sarn Mellteyrn. It is only 207 years old but has an interesting history (booking essential: max 30).

CONWY BRANCH

Contact: Tony Scharer: tonyscharer@gmail.com 01745 813027. **Thurs 23rd March** at Gill's house in Llanddulas: How to structure a Village study – discussion, 9.30-12.00. **April:** no meeting. **May:** House visit; details still to be finalized. **Tues 20th June** with Martin Cherry: an illustrated talk on the architecture of old houses in North Wales. 2pm at Ann's house. **Tues 11th July** Guided walk around Denbigh with Tony Scharer. Meet 2pm at St Hilary's Church Tower near the castle in Denbigh. There is a free car-park close by. Duration about 2 hours, distance about 1 mile. **August:** no meeting.

DENBIGHSHIRE BRANCH

Contact: Janice Dale: jadale22@hotmail.co.uk 01490 440427 **Fri 17th Mar:** general meeting at a member's house near Llandrillo, and possible visit to a house in the immediate vicinity. **Fri 21st April** visit to RCAHMW 11.00. Max 12, so booking with me imperative. **Fri 12th May** 2pm Visit to Dolbelydr, the Landmark Trust house near Denbigh. Max 12, so booking with me imperative. **June** TBA. No meetings in July or Aug.

MERIONETH BRANCH

Contact: John Townsend: john@thetownsends.org.uk 01341 430262. Dolgellau Archives is open for *DOWHG members only* on the 1st Wednesday of each month between 9.30am and 12.30pm. Please make use of this arrangement, notifying John. **Sat 18th March** 2pm: Cae'r March, Llanfachreth LL40 2DS, an early (1542) storeyed house of two-unit plan with lateral chimney. **Tues 11th April** 2pm Visit to two churches: St Mary & St Egryn, Llanegryn (notable screen, rood loft and font, possibly Norman); St Cadfan, Tywyn (Romanesque

(pensaernïaeth Romanésg, ac mae Maen Cadfan wedi ei arysgrifio gyda'r Gymraeg ysgrifenedig hynaf sydd ar gael, delw o berson militaraid a allai fod yn Gruffudd ab Adda, m.c1350). **Mercher 17 Mai** 2yp: Ymweld â Llwyn y Cynfal, Rhyd-y-main, LL40 2BP (SH787211). Mewn lleoliad trawiadol yn Nyffryn Wnion gyda golygfeydd ar draws at Gader Idris. Tŷ Eryri lloriog, clasurol a chylch coeden dyddiedig 1587. Cyfarfod yn y maes parcio yn Rhyd-y-main am 1.45yp.

CANGEN GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU

Mae'n holl bwysig archebu ymweliadau yn gynnar gyda M Dunn (01766 890550 brynbedd1@gmail.com). **Mercher 22 Mawrth:** 2yp ymweld â Phlas Uchaf, i'r de o Ruthun (nifer 12). **Llun 3 Ebrill:** 2.00yp ymweld â Golden Grove, Llanasa, y tŷ a'r gerddi (nifer 30) AR AGOR I BOB CANGEN. **Sad 13 Mai:** 2yp ymweld â Dolbelydr, Trefnant (Diwrnod Agored Landmark Trust). **Mawrth 13 Mehefin:** 2.00yp ymweld â chartref Wally a Margaret Barr yng Ngwesbyr ger Llanasa (nifer 12). **Iau 13 Gorffennaf:** 2yp ymweld â Chraig y Castell ac adfeilion y castell, Dyserth (nifer 20). Dim cyfarfod yn Awst.

NODYN ATGOFFA: Mae'r holl dai a grybwyllir yn y cylchlythyr hwn ac/neu sy'n gysylltiedig â DHDC yn eiddo preifat ac **nid ydynt ar agor** i'r cyhoedd.

LAWER O DDIOLCH i Gangen Môn - Arfon am eu cyfraniad at yr argraffiad hwn o'r cylchlythyr.

CYSYLLTIADAU: DHDC A HANES LLEOL

Nid yn unig y mae Prosiect Darganfod Hen Dai Cymreig yn ymwneud â dyddio coed neu gofnodi adeiladu, mae hefyd yn ymwneud â hanes tai, sef y trydydd darn yn y jigso. Mae'r mewnwledigaethau gwerthfawr hyn i orffennol tai yn golygu mwy na phwy a'u hadeiladodd, a pha bryd y codwyd hwy yn ogystal â'u tirdaliadaeth, ond hefyd gwybodaeth am y bobl sydd hefyd yn y teulu a sut yr oeddynt yn byw. Pan safwn yn ôl ac edrych ar sawl hanes tŷ ar yr un pryd, waeth pa mor bell yr ymddangosant oddi wrth ei gilydd mae'n rhyfeddol mor gysylltiedig y gallant fod. Os credwn taw ffenomen fodern yw gwpeplyr a rhwydweithio, yna hwyrach y dylem feddwl eto, gan mae'n rhyfeddol mor gysylltiedig oedd trigolion y gorffennol.

Wrth edrych ar *Hen Blas*, Llangristolus, Ynys Môn, gwelwn fod Marged Morgan, yn 1725, wedi priodi William Evans o *Llethr Du*, Llanaelhaearn, Llŷn; roedd ei hen daid wedi priodi Anne Wyn o *Fryncir*, Dolbenmaen. Roedd nifer o leiniau o dir yn Llanaelhaearn yn dal yn eiddo ystad Bryncir yn ôl arolwg degwm 1839. Priododd Margaret Jones o *Gastell March*, Llŷn â Syr William Williams o'r *Faenol*, Bangor yn 1640. Roedd ei chwaer Jane yn briod â'i frawd Thomas Williams. Roedd eu taid Syr William Williams wedi etifeddu stad y *Faenol* yn 1592. Roedd wedi priodi ei nith Ellen Williams o *Gochwillan*, a thrwy hynny adennill stad y *Faenol* a drosglwyddwyd iddynt hwy yn 1533.

Yn *Foxhall*, Henllan, Sir Ddinbych c1550 fe briododd John Llwyd (Rosindale) Sibyl Glynne ferch Richard Glynne o *Blas Newydd*, Llandwrog. Tua 1650 priododd Hugh Llwyd neu Rosindale (gorwyr?) Margaret merch William Glynne, *Glynllifon*, Llandwrog. Mae *Plas Newydd* hefyd yn gysylltiedig drwy briodasau â *Thŷ Mawr*, Nantlle a'r *Faenol* yn ogystal â

architecture, the Cadfan Stone inscribed with the oldest known written Welsh, an effigy of a military figure thought to be Gruffudd ab Adda, d. c1350). **Weds 17th May** 2pm: Visit to Llwyn y Cynfal, Rhydymain, LL40 2BP (SH787211). Spectacularly sited in the Wnion Valley with views across to Cader Idris. A classic Snowdonian storeyed house, tree-ring dated to 1587. Meet in the car park at Rhydymain at 1.45pm.

NORTH EAST WALES BRANCH

Essential to book visits early with M Dunn (01766 890550 brynbedd1@gmail.com). **Weds 22nd March:** 2.00 pm visit to Plas Uchaf, south of Ruthin (max 12). **Mon 3rd April:** 2.00 pm visit to Golden Grove, Llanasa, house & gardens (max 30) OPEN TO ALL BRANCHES. **Sat 13th May:** 2.00 pm visit to Dolbelydr, Trefnant (Landmark Trust Open Day). **Tues 13th June:** 2.00 pm visit to Wally & Margaret Barr's home in Gwespyr near Llanasa (max 12). **Thurs 13th July:** 2.00 pm visit to Craig y Castell and castle remains, Dyserth (max 20). No meeting in August.

REMINDER: all the houses mentioned in this Newsletter and/or linked with DOWH are private property and are **NOT** open to the public.

MANY THANKS to the Anglesey/Caernarfonshire Branch for their contribution to this issue of the newsletter.

CONNEXIONS: DOWH AND LOCAL HISTORY

The Discovering Old Welsh Houses project has been not just about the dating of timbers or the building recording, but the third piece of the jigsaw is that of the house histories. These valuable insights into the houses' pasts are more than just who built them, when and their landholdings, but about the people who are also in the household and how they lived. It is when we stand back and look at several house histories at once, however far apart they may seem, it is amazing how interlinked they can be. If we think that social media, Facebook and networking is a modern phenomenon then perhaps we should think again because it is remarkable how well connected the people of the past were.



Castellmarch

When we look at *Hen Blas*, Llangristolus, Anglesey we see that in 1725, Marged Morgan married William Evans of *Llethr Du*, Llanaelhaearn, Llŷn; his great-grandfather had married Anne Wyn of *Bryncir*, Dolbenmaen. Several parcels of land in Llanaelhaearn were still owned by the Bryncir estate

Glynllifon a *Phlas Penmynydd*, Ynys Môn. Mae cytundeb wedi priodas yn 1641 rhwng William Glynn ac Ann Owen yn dangos ei fod yn fab ac yn etifedd Thomas Glynn o *Blas Newydd* ac mai merch William Owen o *Fodeon*, Ynys Môn oedd Ann ei wraig. Wedi marw William yn 1651, priododd y weddw Annie Richard Kyffin o *Neuadd Maenan*, Llanrwst. Priododd William a Jane, merch Ann Coningsby Williams o *Blas Penmynydd*, Ynys Môn. Yn y cyfamser, yn *Rhiwgoch*, Trawsfynydd, erbyn canol y G17 roeddynt yn gynyddol wedi priodi i deuluoedd pwysicach: *Nannau*, *Corsygedol* a *Gwydir*, drwy *Brynmaenllwyd*, Trawsfynydd. Priododd Robert Lloyd Margaret merch Hugh Nanney o *Nannau*. Roedd mam weddw Robert wedi priodi Owen Wynn o *Wydir*, Llanrwst. Yn 1662 fe briododd Ellis Lloyd (mab Robert) Jane, merch Gruffydd Vaughan o *Gorsygedol*.



Gwydir

